
PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 375 | IONAWR 2015







# Calennig









Bu tipyn yn ardal Pen-llwyn yn canu am galennig - Morgan a Iestyn - ac Osian o Gaerffili yn eu cynorthwyo; Megan, Efanna, a Manon gafodd hefyd gwmni Osian; a Llŷr ac Alaw. Bu Martha ac Elan yn canu yn ardal Madog. Tybed fu yna rywun yn ardaloedd eraill y Tincer yn canu? Rhowch wybod!

Mae dydd calan wedi gwawrio,
Dydd yw hwn i bawb i'w gofio,
Dydd i roi a dydd i dderbyn
Ydyw dydd cynta'r flwyddyn.
Rhowch yn hael i rai gwael,
Rhowch yn hael i rai gwael,
Rhai sy'n rhoddi sydd yn derbyn,
Rhai sy'n derbyn sydd yn cael!
BLWYDDYN NEWYDD DDA

**Dyma bennill welwyd ar Facebook gan Angharad Rhos-goch – roedd yn anghyfarwydd i nifer yn yr ardal. Ydych chi yn gyfarwydd â hi? Roedd traddodiad yng Ngheredigion i feirdd gwlad gyfansoddi rhigymau i'r plant eu canu wrth fynd i hel C'lennig. Wrth i'r pennill gael ei ganu o genhedlaeth i genhedlaeth aiff y wybodaeth am yr awdur yn angof.**

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Chwefror
## Deunydd i law: Chwefror 6 Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 18

**IONAWR 16** Nos Wener Noson Cwis Caws a Gwin yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch. Y Cwisfeistr yw Mr. Bob Hughes Jones. **GOHIRIWYD**

**IONAWR 16** Nos Wener Bro fy mebyd yng nghwmni Jill, Judith, Llio a Nia Peris Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**IONAWR 21** Nos Fercher Hazel Walford Davies yn sôn am O. M. Edwards: y stori o'r newydd Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**IONAWR 21** Nos Fercher Gyrfa chwist yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 8.00. Croeso i bawb; raffl fawr yn cael ei thynnu gyda gwobrau yn cynnwys £150 o vouchers M&S

**IONAWR 23** Nos Fawrth Rhian Morgan a Llio Silyn yn 'A gymri di Gymru?' Clwb Nos Wener yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00

**IONAWR 26** Nos Lun Cwmni Theatr Invertigo yn cyflwyno y Tŵr (Gwenlyn Parry) yn Theatr y Werin am 7.30.

**IONAWR 28** Nos Fercher Alwyn Hughes, Llanfair Caereinion, yn sôn am Hen Greiriau Amaethyddol yn Neuadd yr Eglwys, Llanddeiniol, am 8.00. Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion

**IONAWR 30** Nos Wener Hwyl a sbri i'r holl blwyfi yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 6.30

**IONAWR 31** Pnawn Sadwrn Oedfa ddwyieithog o ddiolchgarwch am wasanaeth y Parchg Peter M. Thomas a neilltuo y Parchg Judith Morris yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel, Aberystwyth am 2.00.

**CHWEFROR 1** Pnawn Sul Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth a Sherman Cymru yn cyflwyno Yr Hwyaden Fach Hyll yn Theatr y Werin am 2.00

**CHWEFROR 4** Nos Fercher Hen hanes Parsel Henllys; Gwilym Jenkins fu gyda'i gamera yng nghwmni y diweddar Bennett Jenkins, Cerrig Caranau, Tal-y-bont. Dangosir ym Methel, Tal-y-bont am 7.30. Mynediad: £4

**CHWEFROR 13** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**CHWEFROR 17** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog; adloniant i ddilyn yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**CHWEFROR 18** Gwyn Jenkins - sgwrs am ei gyfrol Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf (Y Lolfa) Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**CHWEFROR 20** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl hanner tymor

**CHWEFROR 20-22** Dyddiau Gwener i Sul Côr Cymru

**MAWRTH 1** Bore Sul Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Menter Gobaith yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 10.00

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Rhagfyr 2014:**

£25 (Rhif 84) E.Hughes, Pen-cwm, Bow Street
£15 (Rhif 280) Gwenan Davies, 48 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 198) Parch Wyn Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch ac enillwyr Cystadleuaeth Nadolig Y Cyfeillion 2014
£60 (Rhif 228) Gwyn Jones, Glynteg. Bow Street
£40 (rhif 123) Gwen Morgan, Y Bungalow, Cwmrheidol

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Rhagfyr 17.**

**Nawr yw'r amser i ymaelodi yn Y Cyfeillion gan y bydd tymor newydd yn dechrau mis Ionawr.**

## 'Ble ti'n mynd i fyw?' – Ail gyfarfod

Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus iawn ym mis Hydref, lle daeth tua 70 o bobl ifanc Ceredigion ynghyd i drafod eu sefyllfa o ran tai yng Ngheredigion, mae 'Ble ti'n mynd i fyw?' wedi cynnal holiadur ar-lein i gael barn bellach. Cafwyd ymateb anhygoel i'r holiadur, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n fuan ar y wefan, sef bletinmyndifyw.webs.com. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau'n sail i'n cyfarfod nesaf, a fydd yn cael ei gynnal nos Wener 23 Ionawr 2015 am 7.30pm yn Nhafarn Rhos-yr-Hafod, Cross Inn.

Croeso i'r holl bobl ifanc sydd eisiau cael cartref iddyn nhw eu hunain yng Ngheredigion - drwy gael pawb ynghyd eto gallwn benderfynu ar sut rydym am symud ymlaen i wneud pethau'n haws i bobl ifanc.




# CYFEILLION Y TINCER

### FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB

**Enw Llawn** ........................................

**Cyfeiriad** ........................................

........................................

........................................

**Côd Post** ........................................

**Rhif Ffôn** ........................................

**Taliadau**

Ticiwch y blwch priodol os gwelwch yn dda

Arian neu Siec ☐

Archeb Banc ☐

**Datganiad**
Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.

Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.

**Llofnod** ........................................

**Dyddiad** ........................................

## Eisteddfodau'r Urdd 2015

**CHWEFROR 25** Dydd Mercher Gŵyl Offerynnol Ceredigion yn Theatr Felin-fach am 12.30
**MAWRTH 4** Dydd Mercher. Rhagbrofion Eisteddfod cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y dref
**MAWRTH 4** Dydd Mercher Eisteddfod Uwchradd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig
**MAWRTH 5** Dydd Iau. Eisteddfod Ddawns ac Eisteddfod cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
**MAWRTH 16** Nos Lun. Eisteddfod Rhanbarth Aelwydydd yn yr Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 6.00.
**MAWRTH 20** Dydd Gwener. Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb
**MAWRTH 21** Dydd Sadwrn. Eisteddfod cynradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00
**MAWRTH 24** Dydd Mawrth. Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion yn Theatr Felin-fach am 12.30

## Colli Lona

Roedd yn drist ac yn sioc clywed am farwolaeth Lona Jones, Glan Ceulan, fore Sul cynta'r flwyddyn. Cyfrannodd Lona ei Cholofn Mrs Jones yn ffyddlon i'r Tincer ers Hydref 2001 ac roedd darllenwyr yn edrych ymlaen i ddarllen beth fyddai ganddi i'w ddweud pob mis. Roedd wedi gobeithio cael cymryd rhan ym mhlygain Penrhyn-coch cyn y Nadolig ac roedd yn ofid calon ganddi nad oedd yn gallu dod gan nad oedd yn teimlo'n dda. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i brodyr – Y Parchedigion Gwynn ac Ifor ap Gwilym a'u teuluoedd. Cynhelir yr angladd brynhawn Sadwrn, 17 Ionawr am 13.00 yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

**Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY**

# BOW STREET

**Oedfaon**
**Capel y Garn 10.00 a 5.00**
**http://www.capelygarn.org/**
**Ionawr**
18 Bugail
25 John Tudno Williams

**Chwefror**
1 Noddfa Arwyn Pierce
8 Rhidian Griffiths
15 Bugail
22 J.E. Wynne Davies

**Noddfa – Chwefror**
1 Oedfa am 10.00
8 Uno yng Nghartref Tregerddan
15 Oedfa am 2.00
22 Oedfa am 10.00

### Teithio

Dymuniadau gorau i Alun Morgan, a Mathew Lucas ar eu taith i ardal Newcastle, NSW, Awstralia.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ar yr 8fed o Ragfyr aeth nifer o'r aelodau i Glwb Golff y Borth i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd noson ddifyr iawn yn gwledda a chymdeithasu a mwynhawyd gweithgareddau amrywiol wedi eu paratoi gan aelodau o'r pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Liz. Diolch i bawb a fu wrthi'n trefnu'r noson.



Bu Mei Roberts, o siop Cigydd Bow Street, yn siarad efo Heledd Cynwal ar Radio Cymru fel rhan o Daith y Doethion. Soniodd fel mae cwsmeriaid yn mynd yn fwy mentrus gan brynu darnau mwy anarferol o gig – brisket a skirt – darnau sydd angen eu coginio yn araf ac yn hir i gael y blas gorau. Roedd y siop yn mynd i fod yn brysur – archebwyd 200-250 o dyrcwns yn ogystal a gwyddau, combács (guinea-fowl), ffesantod a chig carw.Roedd y twrci mwyaf fyddai ganddynt y Nadolig yma yn pwyso 26 pwys. Tybed pwy oedd y gŵr lleol gyrhaeddodd rhai blynyddol yn ôl a chyfaddef iddo anghofio archebu y twrci er iddo ddweud wrth ei wraig ei fod wedi archebu. Fel perchennog busnes da rhoddodd Heath y twrci fwriadai gael iddo!

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Ian Evans, 40 Tregerddan, a Kate Edwards o Benparcau, sydd wedi dyweddïo ar Ddydd Nadolig. Dymuniadau gorau oddi wrth y teuluoedd i gyd.

### Capel y Garn

Cafwyd dwy oedfa fendithiol yng Nghapel y Garn ar y Sul cyn y Nadolig. Yr Ysgol Sul Unedig oedd yn gyfrifol am un y bore. Roedd graen arbennig ar waith y plant, o'r ieuengaf i'r hynaf, a bu gweld y rhieni yn ymuno â nhw yn eu haddoliad yn wefr. Y Parchg Richard a Mrs Mair Lewis oedd wedi paratoi'r sgript.

Tro oedolion yr Ofalaeth oedd hi gyda'r hwyr, pryd cawsom ein hudo unwaith eto gan ddetholiad o garolau – a ganwyd i gyfeiliant band pres y bobl ifainc dan arweiniad Mr Allan Phillips – a darlleniadau, rhai yn hen ffrindiau o'r ysgrythur a rhai yn waith beirdd ac awduron diweddarach. Mawr oedd ein braint yn cael y fath wledd.

Cafwyd Oedfa Gymun yn y capel am naw fore'r Nadolig, ac ar Nos Sul, Ionawr 4ydd, cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn ystod Oedfa'r hwyr.





### Geni wyres

Llongyfarchiadau i Ieuan a Glenwen Thomas, Maes Ceiro, ar enedigaeth wyres – ganwyd Matilda i Jamie a James Thomas, Capel Seion – chwaer fach i Dylan.

### Diolch

Fe hoffai Robert, Martin, Stephen, Beatrice, Amy a`r teulu, 3 Maes Ceiro, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Felicity. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol, cyfanswm o £1,272, sydd bellach wedi ei drosglwyddo i Uned Ddyddiol Ward Leri yn Ysbyty Bron-glais.

### Diolch

Dymuna Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, gydnabod yn werthfawrogol y caredigrwydd mawr sydd wedi ei ddangos tuag ati wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais unwaith eto.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mererid a Jean-Gabriel (Gaby) ar enedigaeth Nolan Rhys Labodinière ar Ragfyr 19 yn Bordeaux, Ffrainc. Ŵyr cyntaf i Arwel George a Lila Piette.

### Brecwast Blwyddyn Newydd

Cynhaliwyd Brecwast Blwyddyn Newydd gan gangen Rhydypennau o Blaid Cymru fore Sadwrn, Ionawr 3ydd, yn y Ddôl, Llandre, cartref Gwynfryn ac Eryl Evans. Cafwyd cwmnïaeth ddifyr gyda tua hanner cant o bobl yn troi i mewn rhwng 9.00 a 12.00 o'r gloch i brofi'r brecwastfwydydd amrywiol oedd wedi eu paratoi ar eu cyfer. Diolch i gwmni Birchgrove am yr wyau. Codwyd swm sylweddol drwy gasgliad tuag at gostau'r Blaid yn etholiad San Steffan ym mis Mai eleni.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mr a Mrs Ken Davies, 12 Maes Ceiro, ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ay y 29ain o Ragfyr.



# Cyflwyno gwaith T Gwynn Jones i Brifysgol Aberystwyth

Mae Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, yn byw unwaith eto yng nghwmni un o aelodau mwyaf adnabyddus ei staff. Dysgodd Thomas Gwynn Jones (1871- 1949) yn yr adran am 34 o flynyddoedd rhwng cael ei benodi'n ddarlithydd yno yn 1913 a'i ymddeoliad yn 1937. Fe'i penodwyd yn Athro Llên yn 1919. Diolch i haelioni ei ŵyr, Mr Emrys Wynn Jones, a weithredai fel cofrestrydd i Goleg y Brifysgol Aberystwyth, rhoddwyd llawer o lyfrau'r Athro Jones, gan gynnwys copïau o'i waith ei hun, i'r adran i'w defnyddio gan staff a myfyrwyr.

Wrth ddiolch i Mr Jones am ei rodd, dywedodd Dr Robin Chapman, pennaeth gweithredol yr adran: "Roedd Thomas Gwynn Jones yn academydd nodedig ac, wrth gwrs, yn llenor o fri. Gellid dadlau bod hanes llên yr ugeinfed ganrif yn cychwyn gydag ef. Teimlad rhyfeddol, felly, yw dal copïau personol yr Athro o waith rydw i wedi'i ddarllen gyda myfyrwyr drwy gydol fy ngyrfa, a llawer ohonyn nhw'n dwyn ei lofnod. Mae'r casgliad yn cynnwys cyfran helaeth hefyd o'i lyfrgell academaidd ei hun. Dri chwarter canrif a mwy ers iddo ymddeol o Aberystwyth, rhai o lyfrau'r Athro Jones, wedi dychwelyd adref, fel petai."

Roedd T Gwynn Jones yn llenor amryddawn a wnaeth gyfraniad pwysig iawn i lenyddiaeth Gymraeg, ysgolheictod Cymreig ac astudiaethau llên gwerin yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yr oedd hefyd yn gyfieithydd medrus o'r Almaeneg, Groeg, Gwyddeleg a Saesneg. Cafodd ei eni yn y Gwyndy Uchaf yn yr hen Sir Ddinbych a'i



Dr Robin Chapman (chwith) a Robin Williams, myfyriwr Cymraeg a Hanes Cymru yn yr ail flwyddyn yn darllen un o lyfrau T Gwynn Jones.



Gwelir T. Gwynn Jones yma gyda Chymdeithas Lenyddol y Garn yn cofio Dafydd ap Gwilym ym Mro Gynin, Penrhyn-coch ar 25 Mai 1935.


Yn y llun gwelir Elinor Jones (Piper wedyn) yn cyfeilio ar y ffidil i Ifor Davies (ewyrth Llinos Dafis) i ganu cerdd dant. Mae David Jenkins a Dewi Morgan yn eistedd, y Parchg Wallace Thomas (gweinidog y Garn).

gladdu ym mynwent Heol Llanbadarn, Aberystwyth.

Yng Ngwanwyn 1929 symudodd T. Gwynn Jones a'i briod o'r Buarth, Aberystwyth, i bentre Bow Street.

Yn ôl Llinos Dafis: "Fe symudon nhw o Hafan rywbryd yn 1944 neu 1945, pan brynodd fy rhieni i'r tŷ oddi wrthyn nhw, ond dw i'n cofio amdano yn ymweld o dro i dro. Roedd e hefyd yn ymwelydd cyson yn nhŷ fy nhad-cu a'm mam-gu yng Ngarthlwyfen, Bow-Stryd, ac fe ysgrifennodd gywydd coffa i Merfyn, fy ewyrth, pan gafodd ei ladd mewn damwain ffordd oherwydd y blacowt."

Claddwyd un o'i feibion – Llewelyn Gwynn - ym Mynwent y Garn.



Ei gu wên a garem gynt,
a'i air mwyn, ni chair monynt,
o dawr mwyδ ei awen,
a rhoi ei law δan oer len.

III

Eiδo ef ywr hendref fraith
a thir oes aur yr heniaith,
Garth Llwyfain, cain yn y co';
ei δawn a luniaδ hwnnw.
Nid oeδ ond o a wyδad
y lle yr oeδ ma'i holl rad —
yno yr oeδ celfyδion, rês,
moes a llên, pob hen hanes.
Yn ei wŷn, hon a δewai,
yn hon o'i gâryn, hun a gâi,
Garth Llwyfain, gwyrth ei lafur,
oeδ fyw'n ei gof drwy'i δofn gur.

Y cywydd mewn llawysgrif

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
2.00
**Ionawr**
18 Bugail
25 John Tudno Williams

**Chwefror**
1 Noddfa Arwyn Pierce
8 Rhidian Griffiths
15 Bugail
22 J.E. Wynne Davies

### Llwyddiant mewn sioe a rhaglen deledu


Llongyfarchiadau i Dei Evans, Deilyn, Cefn-llwyd am ei lwyddiant yn y Sioe Aeaf, Llanelwedd yn adran carcus ŵyn Beltex. Hefyd am ennill IPad ar Cracyr Dolig y rhaglen Heno ar S4C cyn y Nadolig.

### Dyweddïo

Llongyfarchiadau i'r parau sydd wedi dyweddïo – Aled a Sharon, Garreg Wen, Banc y Darren, a Carwyn Thomas, Brynheulog ac Amy Binks o Lanbadarn Fawr.



Owain Arthur a Richard Harrington fu'n ffilmio Y Gwyll ar dir Tegwyn



Tegwyn yng nghwmni Lloyd Elis (Huw Lloyd Jones, Lasynys, Llandre gynt) oedd yn gweithio ar y cynhyrchiad fel cynorthwydd cyfarwyddwr cyntaf. Cafodd Lloyd flwyddyn brysur yn dilyn y ffilmio, yn cynnwys dyrchafiad i weithio fel Rheolwr Cynhyrchiad Eastenders ar gyfnod mwya cynhyrfus y sioe yn ddeng mlwydd oed. Mae newydd orffen gyda nhw a bydd yn dychwelyd i Aberystwyth i weithio ar y drydedd bennod o'r Gwyll am chwech wythnos o ganol Ionawr ymlaen.

# PENRHYN-COCH

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Cynhaliwyd cinio Nadolig y gymuned ar y 10fed o Ragfyr. Pawb wedi mwynhau yn fawr iawn yng nghwmni ei gilydd. Traddodwyd y fendith gan Mairwen a hefyd fe ddiolchodd i bawb yn ei dull arferol am yr holl waith oedd pawb yn ei wneud i gadw ni yr henoed yn hapus bob yn ail wythnos, drwy'r flwyddyn. Rwy'n siŵr fod yna amryw ohonoch yn y pentre a all ddod i ymuno â ni a chael bod yng nghanol cwmni hapus dros ben. Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Ionawr, 11 a 25 Chwefror. Cysylltwch â Job McGauley 820963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Plygain 2014

Nos Iau, 18 Rhagfyr cynhaliwyd 24ain plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan. Gweinyddwyd gan y Parchedig Andrew Loat ; darllenwyd y llith gan y Parchg Judith Morris. Roedd yn dda gweld plant Ysgol Penrhyn-coch yn agor y blygain; fe'i dilynwyd gan Barti'r Penrhyn; Marianne Jones- Powell; Pedwarawd Glanrafon; Côr Ger-y-lli; Linda Jones; Cantorion Aberystwyth; Angharad Fychan; Rhiannon, Eleri a Trefor a Chantre'r Gwaelod. Gweiniwyd cawl drefnwyd gan Barti'r Penrhyn a tharten afal drefnwyd gan Gymdeithas y Penrhyn wedyn yn dilyn yn Neuadd yr Eglwys. Cylflwynwyd y casgliad £226.32 i Elusen Marie Curie. Roedd criw y rhaglen deledu Ffermio yna yn ffilmio – dangoswyd darnau ar eu rhaglen ar Ionawr 5ed yn cynnwys cyfweliadau gyda theulu Rhos-goch.

### Cystadleuaeth carol

Llongyfarchiadau i Sara James, (gynt Evans, Refail Fach) sydd yn ddirprwy yn Ysgol Gymraeg Castell-nedd. Gwelwyd hi yn arwain cor o'r ysgol yn canu carol a ysgrifenwyd ganddi yn rownd derfynol cystadleuaeth Carol yr Wyl ar S4C. Yr ysgolion gyrhaeddodd y rownd derfynol oedd: Ysgol Gymraeg Bryn-y-môr, Abertawe; Ysgol Bro Banw, Rhydaman; Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd; Ysgol Sant Curig, Y Barri; Ysgol Llwynderw, West Cross, Abertawe; Ysgol Gymuned Bryngwran, Ynys Môn; Ysgol Cynwyd Sant, Maes-teg; Ysgol Gynradd Gymraeg Glanrafon, Yr Wyddgrug; Ysgol y Ffridd, Gwalchmai ac Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl. Roedd 19 o gorau yn ymgeisio am le yn y deg uchaf. Y cerddor a'r arweinydd, Alun Guy, ac arweinydd Côr y Cwm - Elin Llywelyn-Williams oedd y beirniaid eleni, a nhw fu'n trafod y perfformiadau ac yn dewis y côr buddugol yn fyw ar Prynhawn Da ar 19 Rhagfyr. Yna, gwelwyd Elin Fflur yn cyflwyno rhaglen uchafbwyntiau Carol yr Ŵyl, yr un noson ar S4C. Yr enillwyr oedd Ysgol Cynwyd Sant, Maes-teg.

### Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Llywela Williams, Waunfawr – cyn athrawes yn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch am ennill y brif wobr ar raglen radio Tommo brynhawn olaf 2014. Y wobr oedd talebau i'w gwario yn siopau y Stryd Fawr.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhys Dobson ac Anca Cristina, Glan Ceulan, ar eu dyweddiad ar ddydd Nadolig.

### Mam-gu eto!

Llongyfarchiadau i Delyth Jones, Rhydyrysgaw, Glan Ceulan ar ddod yn fam-gu eto. Ganwyd mab i Lowri ac Owain Schiavone ar fore dydd Nadolig – Now Dafydd - brawd bach i Llew a Moi.

### Clwb Hanner Tymor Horeb

Bydd Clwb Hanner Tymor Horeb yn cyfarfod nesaf ar ddyddiau Mercher a Iau 18-19 Chwefror 2015. I gael mwy o wybodaeth cysyllter â Wendy Reynolds 01970 820124 wendyreynolds60@yahoo.co.uk



Plant Ysgol Sul Horeb yn y gwasanaeth Nadolig.



Ymweliad Siôn Corn a drefnwyd gyda chydweithrediad Richard Owen.



Cynhaliwyd gwasaneth Nadolig Cylch Meithrin Trefeurig yng Nghapel Horeb dydd Mawrth 16 Rhagfyr yng ngofal y Parchg Judith Morris. Daeth dosbarth Miss Cory o Ysgol Penrhyn-coch i ymuno yn y gwasanaeth.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, Rhagfyr 11eg, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Wendy ein Llywydd cyn mynd ymlaen i ddarllen yr ohebiaeth, yn cynnwys sôn am ail gylchu yn y dyfodol a chystadleuaeth yr haf, Merched y Wawr ym mis Mai, a'r thema eleni fydd "Calon". Trafodwyd yr amser ac ati i fynd i'r cinio blynyddol ar Ionawr 8fed i Tynllidiart, Capel Bangor.

Llongyfarchwyd Judith Morris ar ei swydd newydd ar Ionawr 1af fel Ysgrifennydd

Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru. Yna estynnwyd croeso cynnes i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni Gwenda James, Llandre. Bu'n dangos sut i wneud addurniadau bach syml, nad oedd yn costio llawer i'w gwneud, a hefyd addurno cacennau bach. Cafodd pob aelod y siawns i gymryd rhan a gwneud rhywbeth creadigol. Yn ogystal â bod yn nyrs yn Ysbyty Bron-glais mae Gwenda yn aelod o Gôr Ger-y-Lli, ac yn creu'r holl waith llaw bendigedig. Mwynhawyd yn fawr yn ei chwmni a diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Delyth Jones. Diolch i bawb a fu ynghlwm â addurno y goeden Nadolig yn wych gogyfer arddangosfa o goed Nadolig yn Eglwys Sant Ioan.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theuluoedd Clawddmelyn, Cwmbwa a Phenbanc sydd wedi colli cefnder cyn y Nadolig - Dewi Scourfield o Benparcau.

Cydymdeimlwn a Mike a Tracy Exley, Sioned ac Arwen ar farwolaeth mam-gu Mike dros y Nadolig. Bu Mrs Elsie Thomas (Bryngolau, Tal-y-bont) yng Nghartref Plascwmcynfelyn ers rhai blynyddoedd.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
13/12/14 Penrhyn-coch 0 – 0 Y Trallwng Cynghrair
20/12/14 Penrhyn-coch 1 –4 Llanrhaeadr Cynghrair

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

## DÔL-Y-BONT

### Geni ŵyr

Llongyfarchiadau i David a Sue Billingsley, Dolwar, ar enedigaeth ŵyr bach - Noah James, mab bach i Harriet Billingsley.

Harddwch
Siriol
Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

ytincer@
googlemail.com

## CÔR CYMRU 2015

Cyhoeddwyd enwau y corau sydd wedi eu dewis i fynd ymlaen i rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru 2015 yn Aberystwyth ar Chwefror 20-22

**Corau Ieuenctid 20/2/15 8.00**
Ysgol Gerdd Ceredigion; Côr y Cwm; Côr Hŷn Glanaethwy; Côr JMJ.

**Corau Merched 21/2/15 2.00**
Llunsain; Côr Merched Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin; Parti Llwchwr;
Côr Merched y Waun Ddyfal.

**Corau Meibion 21/2/15 7.30**
Bois Ceredigion; Côr Meibion Rhos; Cantorion Colin Jones; Bechgyn Bro Taf

**Corau Plant 22/2/15 1.30**
Côr Cytgan Clwyd; Côr Iau Glanaethwy; Côr Ieuenctid Môn; Côr Heol y March

**Corau Cymysg 22/2/15 7.00**
Côr Crymych a'r Cylch; Cywair; Tempus; Côr Aethwy.

A hefyd eleni mae cystadleuaeth newydd CÔR CYMRU CYNRADD 2015 a'r ysgolion sydd drwodd yw Côr Ysgol Iau Llangennech; Côr Ysgol Gymraeg Teilo Sant; Côr Ysgol y Wern; Côr Ysgol Iolo Morgannwg.

**Côr Cymru Cynradd 2015 Rownd derfynol 18/4/15**
**Cor Cymru Rownd derfynol 19/4/15**

**Tocynnau ar gael o 029 2022 3456 / corcymru@rondomedia.co.uk**

## llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Dyn eira

# **Person prysur:** Marian Beech Hughes

Un o'r bobl brysur hynny sydd wastad ag amser i wneud rhagor yw Marian Beech Hughes, ac er ei bod bellach wedi ymddeol o'i gwaith cyflog, go brin y newidith hynny. Yn ardal Llandegla a Llannefydd mae ei gwreiddiau. Fferm Perthichware, Llandegla, yn nyffryn afon Alun, ger Clawdd Offa, oedd cartref ei mam, ardal a gafodd ei hanfarwoli gan Tegla Davies wrth iddo ddod â Rhyfel y Degwm yn fyw i ni yn ei lyfr *Gŵr Penybryn*. Ei mam oedd y bedwaredd genhedlaeth o'i theulu i fyw yno. Mae'n debyg mai o ardal y 'potteries' yng ngogledd Lloegr y daeth y Beech i'r teulu.

Yn Llannefydd roedd gwreiddiau ei thad, ac yno, ar fferm y Gwyndy, y magwyd Marian. Er bod y fferm yn cyflogi dau was a morwyn, roedd disgwyl iddi hithau a'i chwaer chwarae eu rhan – porthi anifeiliaid cyn mynd i'r ysgol yn y bore, godro, carthu beudái... Penderfynodd yn ifanc na fyddai byth yn priodi ffermwr!

Rhwng amryfal weithgareddau'r capel a'r ffaith bod ei rhieni yn perthyn i barti a âi o gwmpas i gynnal nosweithiau llawen, roedd y cartref yn fwrlwm cyson o brysurdeb.

Dim ond tri phlentyn oedd yn ei blwyddyn yn ysgol gynradd Llannefydd; sioc iddi oedd cyrraedd Ysgol Ramadeg Dinbych yn 1963 a phopeth, yn cynnwys Addysg Grefyddol, yn Saesneg. Cymraeg, Lladin a Mathemateg Bur oedd ei phynciau Safon A, ac ar ôl graddio yn y Gymraeg o Fangor daeth i Aberystwyth i weithio i'r Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Mae'n cofio cael cyfweliad gyda'r Athrawon uchelfri Tom Parry, Geraint Gruffydd, Ellis Evans, a Chaerwyn Williams, ar gyfer y swydd ddi-nod honno! I Caerwyn Williams y bu'n



gweithio ac mae hi'n uchel iawn ei chlod iddo.

Oddi yno aeth i'r Llyfrgell Genedlaethol. Un diwrnod collodd un o'i lensys a daeth bachgen ifanc o Fôn o'r enw Iestyn Hughes i'w helpu i chwilio amdani. Mae Iestyn yn dal wrth law i'w helpu mewn cyfyngder! Oddi ar hynny magodd ddau o blant, Sara a Seiriol, bu'n gweithio yn y Ganolfan Astudiaethau Addysg, yn Olygydd Cynorthwyol ar Eiriadur Prifysgol Cymru, ac yn olygydd yn y Ganolfan Uwchefrydiau Celtaidd. Mae hi'n ymhyfrydu yn y ffaith ei bod hi wedi cael gweithio i gymaint o academyddion disglair ac ymroddedig.

Hyd ei hymddeoliad ddiwedd y llynedd Marian oedd pennaeth Adran Olygyddol Cyngor Llyfrau Cymru. Un o brif swyddogaethau'r Cyngor yw sicrhau safon ac ansawdd, o ran dylunio a chywirdeb, llyfrau sy'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg gan weisg yng Nghymru. Yr Adran Olygyddol sy'n gwneud y gwaith darllen a chywiro, hynny yw golygu copi a phrawfddarllen. Ystyr hynny yw darllen y testun yn fanwl fanwl a nodi pob gwall, boed hynny yn gamsillafu, camdreiglo, camatalnodi, ac unrhyw beth arall sy'n amharu ar ansawdd y testun a mwynhad y darllenydd. Mae'n gofyn am hir amynedd, llygaid barcud a gwybodaeth ddihysbydd o bob dim sy'n ymwneud â chywirdeb iaith ysgrifenedig – sillafu, gramadeg, atalnodi - rhaid bod ei hastudiaeth o Ladin a Mathemateg wedi bod yn help iddi yn ei gwaith. Os yw popeth yn mynd yn iawn mae'r golygydd, yn anweledig; dim ond pan fydd llyfr yn llawn gwallau y bydd darllenwyr yn holi!

Yn ogystal â hyn i gyd mae ei hymroddiad i Gapel y Garn yn ddihareb. Hi oedd y fenyw gyntaf i gael ei hordeinio'n flaenor yn y capel, a hi yw'r unig fenyw yn y sêt fawr o hyd; hi hefyd sy'n golygu ac yn cysodi *Gair o'r Garn*, cyhoeddiad trimisol yr ofalaeth, ac yn gofalu am wefan a chyfrif trydar y capel.

Achos arall agos at ei chalon yw Merched y Wawr. Ym mis Awst y llynedd daeth ei hail gyfnod yn Llywydd Cangen Rhydypennau i ben; bu hefyd yn ysgrifenyddes y gangen ar ddau gyfnod gwahanol oddi ar iddi ymuno â'r mudiad yn 1984. Fu'r ffaith bod ganddi waith mor gyfrifol drwy'r dydd, ac weithiau drwy'r nos, ddim yn rheswm iddi gefnu ar y mudiad!

Bellach mae hi wrthi'n paratoi ar gyfer bywyd newydd, gweithgar, prysur. Dycnwch, dyfalwch, parodrwydd, ymroddiad, egni, yw rhai o'r geiriau sy'n dod i'r meddwl mewn cysylltiad â hi. Pwy feddyliai ei bod wedi ei geni'n faban eiddil, gwan, a gafodd ei bedyddio'n ddiymdroi oherwydd pryder na fyddai'n goroesi.

Pob hwyl iddi yn ei bywyd newydd.

Gyda llaw, os oes unrhyw wall yn yr ysgrif hon, gobeithio y maddeuith Marian i fi.

**Llinos Dafis**

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf unwaith yn rhagor i Dei Evans, Typoeth, a Gwen Morgan, Y Byngalo, ar golli eu cefnder - Ieuan Evans, Tŷ Nant, Llanafan yn sydyn iawn rhai dyddiau cyn y Nadolig.

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd y parti Nadolig blynyddol eleni eto yn y Ganolfan Groeso. Daeth nifer o bobl a phlant ynghyd a daeth yr hen Sion Corn heibio a anrheg i bob plentyn. Diolchodd Norma Stephens i bawb am y bwyd ac i Sion Corn am wneud ei waith eleni eto. Nos Lun cyn y Nadolig aeth nifer o bobl a phlant o amgylch yr ardal i ganu carolau a chafwyd y croeso arferol ymhob cartref. Diolch i John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Gethin Howells, Elen Howells ac Alice Briggs ynghyd â'r plant bach am gadw y traddodiad yn fyw. Bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei drosglwyddo i Gymdeithas Alzheimer.

Dyma lun o'r plant gyda Sion Corn noson y parti.



## Y BORTH

Dydd Sul 14 Rhagfyr perfformiodd plant ysgol Sul Eglwys St Matthew ddrama'r Geni, yn cael eu cynorthwyo gan aelodau ifanc yr Eglwys. Roedd yn hyfryd gweld cymaint o rieni, aelodau teulu a chyfeillion yn y gynulleidfa. Cyflwynodd y plant y Geni trwy gyfrwng drama, darlleniadau a charolau. Canwyd carolau gan Toohey ac Anna ar ei ffliwtiau ac ysgrifennwyd gweddiau ar gyfer y gwasanaeth gan Dion, Eleanor a Lili, Diolch i bawb o'r ysgol Sul am wasanaeth cystal.

Diolch yn fawr i Derek a Gwenda Edwards o siop Nisa, y Borth, am ddewis Eglwys St Matthew a'r Ysgol Sul fel eu helusen y flwyddyn. Rhoddwyd siec am £500 i St. Matthew. Gwelir, yn y llun, Jane Evans o siop Nisa yn cyflwyno siec i Daisy Paddock o'r Ysgol Sul. Hefyd yn y llun mae eraill o'r Ysgol Sul a'r Ieuenctid - Lucy Paddock a Chloe Pemberthy, gydag Eleanor ac Anna Williams yn dal y faner elusennol.

### Priodas

Daeth Katharine (Kat) Haynes yn ôl i'r Borth dros yr haf i briodi Josh Whittaker yn Eglwys Llangorwen ar y 23ain o Awst. Cynhaliwyd y parti priodas yn nhŷ ei mam (Margaret Haynes) yn y Borth. Mae Kat a Josh yn byw ym Melbourne, Awstralia (sef cartref Josh) gyda'u mab Henry (2) a'u merch Rose (5 mis).

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr. David Morgan, Brynbala, sydd wedi colli ei chwaer - Mrs. Ann Hopkins o Langwyryfon ac â Mrs. Lyn Morgan sydd hefyd wedi colli brawd yn Nhywyn.







## LLANDRE

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Brian Evans, Annedd Wen, ar ôl cyfnod yn ysbyty Bron-glais. Hefyd i Regina Jones, Bron y garn, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty yn Abertawe.

### Gor-wyres

Llongyfarchiadau i Glyn a Margaret Williams, Bryngolau ar ddod yn hen dad-cu a hen fam-gu. Ganwyd merch fach - Lisa Mair - i Rhian a Dai ar noswyl Nadolig. Hefyd llongyfarchiadau i Dai a Mair England ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Glyn Williams, Bryngolau, a'r teulu ar farwolaeth cyfnither, sef Mrs Elsie Thomas, Tal-y-bont.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Bydd Merched y Wawr yn ail gychwyn ar Nos Lun Ionawr 19 yn Ysgoldy Bethlehem. Y noson yng ngofal Glenys a Mair.

### Cyfarchion yr Ŵyl

Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion yn y flwyddyn newydd.
Mair England - 01970 828593
e-bost: mairllo@hotmail.co.uk

# Colofn Enwau Lleol

Daeth ymholiad i law ynghylch ystyr *Troedrhiwlwba* yng Nghapel Bangor.

Cofnodir enghreifftiau o'r enw gan Iwan Wmffre yn ei gyfrol *The Place-Names of Cardiganshire* (t. 1038), gyda'r cynharaf yn dod o Gofrestr Plwyf Llanbadarn yn 1678.

Mae ystyr y ddwy elfen gyntaf yn hen gyfarwydd, a lleoliad y fferm wrth odre trum Cefnbangor yn ategu'r ystyr.

Ond beth am *lwba*?

Tystia *Geiriadur Prifysgol Cymru* mai gair yn deillio o'r Saesneg *looby*, *lob*, neu *lubber* ydyw, yn golygu 'lob, lowt, lleban diog, neu hurtyn'. Ond go brin y cawn fyth ganfod pwy'n union oedd y *lob* neu'r *lowt* a anfarwolwyd yma.


Mae'r *Geiriadur* yn dyfynnu enghraifft o'r gair yn nhafodiaith sir Benfro:

"Cerdd o 'ma 'r lwba!" "Get away, you lout!"

(*A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* t. 182)

Mae'n air dieithr i mi, ond tybed a yw ar lafar gan rai o drigolion ardal *Y Tincer*?

**Angharad Fychan**




© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2015). All rights reserved. (1980s).

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# Cofio Eddie


*Ar brynhawn Gwener, 12fed Rhagfyr, bu farw Eddie Jones, 2 Rhoshendre (Dryslwyn, Bow Street gynt) yn Ysbyty Treforus. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd llawn a dylanwadol yng Nghapel y Garn dan ofal ei weinidog, y Parch. Wyn Morris. Dyma'r deyrnged a dalodd Nerys Ann i'w thad.*

Beth bynnag roedd Dad yn ei wneud, ddydd gŵyl neu waith, roedd wastad yn gwisgo bathodyn arbenning, sef bathodyn yr Urdd. Roedd mudiad yr Urdd yn bwysig iawn iddo. Drwyddo y cyfarfu â Mam dros drigain mlynedd yn ôl ac fe fu'n weithgar drwy gydol ei oes yn rhedeg aelwyd ac adran, mewn eisteddfodau, gwyliau, gwersylloedd a phwyllgorau o bob math. Ond roedd bathodyn yr Urdd yn golygu mwy i Dad na hyn oherwyd fe wnaeth ef y tair addewid sy'n cael eu cynrychioli gan y lliwiau, yn sylfaen ei fywyd:

Byddaf ffyddlon i Gymru a theilwng ohoni
Byddaf ffyddlon i'm cyd-ddyn pwy bynnag y bo
Byddaf ffyddlon i Grist a'i gariad ef.

Fe weithiodd Dad yn galed fel athro a phrifathro i hybu Cymreictod gan roi yng nghalonnau cenedlaeth gyfan o ddisgyblion gariad at iaith, hanes a diwylliant Cymru: yn mynd â nhw i Eisteddfodau a gwyliau, i gerdded a gwersylla, yn gwahodd awduron i'r ysgol ac yn gweithio ar brosiectau arloesol. Fe ymladdodd hefyd i sefydlu Ysgol Penweddig ac fe fu'n gefn i'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Fe'i hanrhydeddwyd gan sawl sefydliad, ond gweld llwyddiant ei gyn-ddysgyblion, ym mha faes bynnag, oedd yn dod â'r pleser mwyaf iddo.

Yn Ysgol Rhydypennau, roedd Dydd Neges Ewyllys Da yn ddyddiad pwysig a chodi arian ar gyfer elusennau lleol yn digwydd yn rheolaidd; Dad yn dangos i'w ddisgyblion bwysigrwydd gofalu am gyd-ddyn, gan wneud hynny ei hun mewn ffordd ymarferol. Ac ar ôl iddo ymddeol fe ymrodd ef a Mam i weithio'n wirfoddol am ddeunaw mlynedd yn siop Oxfam yn Aberystwyth. Roedd Operation Christmas Child yn agos at ei galon a hefyd ymgyrch flynyddol Grŵp Help Llaw Capel y Garn i anfon bwyd i Fosnia.



Dafydd ac Eddie ar daith gerdded y Tincer ym Mehefin 1978. Enillodd Dafydd y wobr gyntaf am ei wisg Dinceraidd (adran iau) Eddie drefnodd y daith a fo oedd yn llywio y noson yn Neuadd Rhydypennau. Llun: Beti Jones (o DIncer Mehefin 1978 DIncer )

Dyn *hands on* oedd Dad ac fe fu'n llafurio'n dawel y tu ôl i'r llenni yng Nghapel y Garn am bron i hanner canrif, yn ymweld â henoed yr ardal, yn cynnal Ysgoldy Bow Street a datblygu'r fynwent, yn dysgu yn yr Ysgol Sul a threfnu gwasanaethau plant. Nid gweithredu yn unig a wnâi Dad, fodd bynnag, ond byw ei ffydd gan estyn cariad Crist at unrhyw un mewn angen. Fe welodd mam a fi hyn yn ystod ei ymweliadau ag ysbytai dros y blynyddoedd, ond yn enwedig yn ystod ei arhosiad yn Nhreforus. Roedd ganddo wên a gair bach o ddiolch ar gyfer pawb a weinai arno yng nghanol ei wendid.

Gwasanaethu Cymru, cyd-ddyn a Christ a wnaeth Dad yn ffyddlon drwy gydol ei oes ac mae themâu caneuon *Clap a Chân* yn adlewyrchu hyn. 'Glynwch at yr hyn sydd dda' meddai'r Apostol Paul, ac wrth edrych yn ôl dros fywyd Dad rwy'n diolch am ei ffyddlondeb sydd yn esiampl i ni i gyd ac am ei arweiniad cadarn a'i ddylanwad arnom.

**Eddie Jones oedd Cadeirydd cyntaf y Tincer a bu yn Brif Ddosbarthydd a Chadeirydd o 1977 hyd 1997.**

Yr oedd cyfraniad Eddie i amryw feysydd yn y fro hon yn gyfarwydd i ni i gyd fel ardalwyr, ond hoffwn sôn yn fyr yma am un ohonynt. Pan aethpwyd ati i sefydlu'r papur bro hwn yn 1974, yr oedd ymwybyddiaeth glir ymhlith y sefydlwyr fod ei gylchrediad yn fater o bwysigrwydd cwbl sylfaenol. Penderfynwyd o'r dechrau nad oedd gollwng pecyn o'r papur yn y siop yma ac yn y swyddfa bost acw, ac yn y blaen, ac yna eistedd yn ôl gan obeithio'r gorau – nad oedd hynny'n ddewis o gwbl. Rhaid oedd mynd â'r papur at y darllenwyr. A'r gŵr a ymaflodd yn y trefnu hwnnw o'r dechrau oedd Eddie. Petaem wedi chwilio'r ardal â channwyll, ni allem fod wedi taro ar neb trylwyrach i fynd â'r faen arbennig honno i'r wal. Ymaflodd yn y gwaith â thrylwyredd rhyfeddol, gan rannu ardal y papur yn adrannau hwylus a hylaw, a sicrhau cyflenwad misol – yn ôl galw'r ardal – i'r person oedd yn gyfrifol am ei ddoabarthu yno. Cadwai lygad barcud ar yr arian a ddôi i mewn, a mynnai esboniad pe dôi copi neu ddau yn ôl na fyddai wedi dod yn ôl o'r blaen.. Gosododd y *Tincer* ar sail ariannol gadarn o'r dechrau. Bu'n gyfaill triw i'r papur ar hyd y blynyddoedd a ddilynodd, ac y mae ein dyled fel ardalwyr y *Tincer* yn fawr iddo. 'Da was, da a ffyddlon', ac yn achos Eddie a'i berthynas â'r *Tincer*, nid ystrydeb yw honno.
**Tegwyn Jones** (**Golygydd cyntaf 1977-83**)

**Bu'n brifathro Ysgol Rhydypennau o 1966-1985. Dyma ddetholiad o sylwadau cyn-ddisgyblion ar Facebook wrth glywed am ei farwolaeth.**

**Iola Wyn** Yn un o ddisgyblion Ysgol Rhydypennau yn y 70au,trist iawn clywed am farwolaeth ein prifathro Eddie Jones. Roedd hefyd yn feistr ar ddawnsio gwerin ac yn gyfrifol am Clap a Chan i Dduw. Ond yn ogystal â›r clapio a chanu, fe osododd e sylfeini cadarn ar gyfer Iola Hughes ac eraill, drwy ein dysgu i barchu'n cyd-ddyn, i ddeall hanes ein gwlad, i glodfori'n diwylliant ac i garu'n hiaith.Diolch Syr X

**Emyr Pugh-Evans** Dyn o flaen ei amser. Braint fod wedi bod yn un o'i ddisgyblion.

**Ffion Williams** Newyddion trist iawn. Dyn annwyl iawn yr

oedd gen i feddwl mawr ohono a pharch mawr iawn tuag ato. Ei gyfraniad i'r ysgol, i'n hardal ac i'n gwlad yn amhrisiadwy. Diolch amdano. Na i byth anghofio dawns y peli (yn ddi-elastig!). (gynt - Madryn, Dolau)

**Alwen Haf Owen** Roedd Mr Jones yn ddyn anhygoel. Atgofion melys iawn ohono yn Ysgol Rhydypennau a Chapel y Garn. (Alwen Llety Ifan Hen) x

**Rhian Gwyn** Cytuno'n hollol â›r teyrngedau uchod. Wedi hel atgofion hapus iawn o ddyddiau braf Ysgol Rhydypennau yn ystod y deuddydd dwetha ers clywed y newyddion trist. Roedd asbri a gweledigaeth Mr Jones yn anhygoel a byddwn ni gyd a brofodd ei gwmni â dyled mawr iddo am ei arweiniad a'i ddylanwad. Cofion atoch oll fel teulu. X

**Ioan Evans** Dyma beth yw colled!! Newydd fod mewn cyngerdd nadolig Ianto yn yr ysgol a llu o atgofion am gyngherdde Eddie yn Neuadd Rhydypennau yn llifo nol!! Hari Morgan, Gwyllied Cochion Mawddwy a sawl steddfod a chyngerdd arall!!! Fiasgo colli y bonnets wrth droi a throi mewn lleni wrth ddawnsho gwerin, nosweithiau hwyliog yr Adran bob nos Fercher. O ie, a profiadau gwych ar draethau llydaw yn cael gweld menywod yn topless am y tro cyntaf!! Diolch. Yn ol Mr Jones I ysgol Y Borth oedd fi a Rhian fod mynd, ond fe "blygodd" Mr Jones y rheolau rhyw damed I gal ni mewn I Rhydypennau. DIOLCH. Cyfnod aur oedd cyfnod ysgol gynradd I mi ac rwyn sicir na fyddwn wedi cyflawni hanner yr hyn yr wyf wedi heblaw am arweiniad Eddie.

**Claire Tynan** (Claire Barnes gynt) Atgofion melys...yn enwedig wrth feddwl am y daith i Ffrainc x

Annwyl Gyfeillion,

Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar lyfr sy'n dwyn y teitl *Gwlad o Gofebau*, er fy mod hefyd yn ystyried ei alw yn *Colli'r Hogiau*. Bwriad *Gwlad o Gofebau* yw edrych ar y Rhyfel Mawr o ongl wahanol. Er mai *Gwlad o Gofebau* yw teitl y gyfrol arfaethedig ar hyn o bryd, nid y cofebau eu hunain sy'n bwysig, ond y rhai a enwir arnynt. Pwy oedd y miloedd hyn o fechgyn a enwir ar y cofebau? A dyna sy'n wahanol yn y gyfrol hon. Amlinellir y cefndir hanesyddol, yn naturiol, ond nid ar hanes y rhyfel ei hun nac ar hanes y gwahanol frwydrau y mae'r pwyslais, ond, yn hytrach, ar y bechgyn a gymerodd ran yn yr ymladd. Ar hanesion personol y mae prif bwyslais y gyfrol, ac nid hanesion y bechgyn yn unig ychwaith. Mae'r bennod 'Ymgeledd Gwragedd y Groes' yn y gyfrol yn adrodd hanes y merched hynny o Gymru a fu'n gweini ar y cleifion ar y Ffrynt Gorllewinol a'r Ffrynt Dwyreiniol, sef merched y Groes Goch.

Ar ôl cyflwyno hanes rhai o'r cofebau, yn fyr, adroddir hanes rhai o'r bechgyn a enwir arnynt, gan ganolbwyntio ar y straeon mwyaf diddorol, ond gan roi darlun cyffredinol o effaith y rhyfel ar deuluoedd Cymru ar yr un pryd. Dyfynnir o'u llythyrau a'u dyddiaduron. Dyfynnir englynion a cherddi coffa iddynt. Rhoir wyneb i'r enw, a thrwy adrodd hanes rhai unigolion, daw trasiedi'r rhyfel yn fyw. O safbwynt lluniau, bwriedir cynnwys ffotograffau gwreiddiol yn y llyfr yn ogystal â hen luniau o'r milwyr a'u teuluoedd, ac yn y blaen.

Bwriad y llythur hwn yw apelio am ddeunydd. Os oes gennych lythyrau neu ddyddiaduron gan rai a fu'n gwasanaethu mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn y rhyfel, neu luniau ohonynt, neu'r ddau, byddwn yn ddiolchgar iawn ichi am gysylltu â mi. Os nad ydych yn awyddus i ollwng gafael ar y deunydd gwreiddiol sydd yn eich meddiant, gellwch anfon llungopïau ataf neu drosglwyddo deunydd imi drwy gyfrwng fy nghyfeiriad ebost.

Hoffwn ddiolch ichi ymlaen llaw am eich cymorth a'ch cydweithrediad. Rhoir cydnabyddiaeth i bawb a roddodd ddeunydd imi yn y gyfrol.

Yn gywir iawn,
Alan Llwyd
71 Ffordd Pentrepoeth,
Treforys,
Abertawe,
SA6 6AE.

Ffôn: 01792 792829
ebost: alan.llwyd@googlemail.com

y tincer

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
BLWYDDYN NEWYDD DDA
A PHOB HWYL YN 2015 !
GANDDOM NI OLL YN
yBlac
Byddwn ar gau rhwng
26 Ionawr - 11 Chwefror
Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

y tincer

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Pen-llwyn**
**Ionawr**
18 Roger Thomas (Dyffryn am 5, Unedig)
25 Heb gadarnhad eto.

**Chwef**
1 Bugail am 5 o'r gloch
8 Bugail am 2 o'r gloch
15 Ifan M.Davies am10.
22 Bugail am 5 o'r gloch

### Cydymdeimlad

Trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Mrs Kathleen Cooper,(Kath) Minafon. 'Roedd yn 85 mlwydd oed, a chynhaliwyd wasanaeth ei hangladd yn Eglwys Dewi Sant. 'Roedd yn byw gyda ei mab Mr David Cooper, ac estynnwn iddo ein cydymdeimlad diffuant ar golli mam.

### Diolch

Dymuna Mr Eilir Morris, Glennydd, ddiolch am yr holl alwadau ffôn, ac ymweliadau yn ystod ei amser yn ysbyty Treforus yn ddiweddar. Hefyd am yr holl gymorth a chymwynasau ar ôl dod adref. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

### Calennig

Ar ddiwrnod Calan, gwelsom, a chlywsom, rai o blant Pen-llwyn eleni eto yn cadw yr hen draddodiad yn fyw, o hel calennig. Hyfryd oedd eu gweld, a thrueni os gwelir yr arferiad yn marw allan.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar ddechrau mis Rhagfyr, yn dilyn gwahoddiad gan aelodau cangen Mynach o Ferched y Wawr, aeth naw o'r aelodau i Eglwys Ysbyty Cynfyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd Gŵyl Coed Nadolig yn cael ei chynnal yn yr eglwys, gŵyl a gynhaliwyd am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Thema'r ŵyl eleni oedd Seintiau, ac addurnwyd y coed Nadolig yn yr eglwys ar y thema honno. Ysgolion, capeli ac eglwysi a chymdeithasau'r ardal oedd yn gyfrifol am addurno'r coed.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Delyth Morris Jones a hi hefyd a groesawodd y wraig wadd, sef Dulcie James o Aberystwyth. Yn ystod y noson, canwyd carolau, darllenodd Dulcie James stori o waith Jacob Davies a cherdd gan Gwyn Thomas a chafwyd cwis. Roedd gwledd o fwyd wedi ei pharatoi ar ein cyfer gan yr aelodau a chafwyd cyfle i sgwrsio ac i fynd o goeden i goeden i edrych yn fanylach ar yr addurniadau. Diolchodd Eirwen McAnulty am y gwahoddiad ac am y pleser a gawsom.

Yna wythnos yn hwyrach, cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty'r Marine yn Aberystwyth. Croesawyd pawb gan gynnwys ein gŵr gwadd gan Eirwen McAnulty , ein llywydd. Wedi gofyn bendith ar y bwyd, mwynhawyd pryd blasus. Alun Jenkins, o Bontarfynach oedd ein gŵr gwadd ac fe'i cyflwynwyd gan y llywydd. Bu'n sôn am bwysigrwydd cymdeithas a chlywsom ganddo am ambell gymeriad yn ei fro. Roedd y modd yr adroddai ambell i stori ddigrif yn dangos ei fod yn berson a oedd wrth ei fodd yn diddanu a diddori cynulleidfa. Diolchodd Llinos Jones i'r gŵr gwadd ac i staff Gwesty'r Marine. Enillwyd gwobrau raffl gan Alison Little, Llinos Jones, Alun Jenkins ac Aerona Armitage.

# Rheilffordd Cwmrheidol yn cynnig disgownt mawr i drigolion lleol yn ystod Hanner Tymor Chwefror!

Mae Rheilffordd Cwmrheidol yn cynnig gostyngiad ym mhris tocynnau i unrhyw un sydd yn byw yn ardaloedd cod post SY neu SA gydol Hanner Tymor mis Chwefror. Yn ystod yr Wythnos Ddisgownt Leol, bydd trigolion lleol yn gymwys i brisiau gosyngedig o £10 i oedoion, ?? a myfyrwyr a £5 i blant (oed 3 i 15). Mae hyn yn ostyngiad o bron hanner pris are u prisiau tocynnau 2015 – cynnig na ddylid ei ??? This offers a discount of almost half price on their 2015 ticket prices, an offer not to miss.

Mae y rheilffordd yn gobeithio y bydd y cynnig hwn yn rhoi cyfle i nifer o drigolion lleol i wneud y daith drwy un o gymoedd gyda'r golygfeydd harddaf yng Nghymru. Nid yn unig hynny, ond gyda'r holl ddatblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf, maent yn awyddus i'w dangos i'r trigolion lleol- llawer ohonynt heb fod ar y Rheidol am nifer o flynyddoedd.

Bydd dwy dren y dydd yn gadael gorsaf Aberystwyth am 10.30 y bore a 2 y pnawn yn cynnwys tocynau dwyffordd yr holl ffordd i Bontarfynach. Neu gellir dal y tren ym Mhontarfynach am 12.30 neu 4.15 y pnawn; ond mae'r cynnig am dren 4.15 yn un taith unffordd i Aberystwyth.

Mae'r Disgownt ond ar gael pan brynir y tocynnau ar y diwrnod o Swyddfa Docynnau Aberystwyth. Nid yw y Disgownt ar gael wrth brynu tocynnau ymlaen llaw neu arlein. Am fwy o wybodaeth gweler eu gwefan www.rheidolrailway.co.uk neu gellir ffonio (01970) 625819.





Tren arbennig Santa cyn y Nadolig

# O'r Cynulliad – Elin Jones



A ninnau ar gychwyn 2015, mae nifer o ardaloedd yng ngogledd Ceredigion wedi cael eu cysylltu i'r gwasanaeth rhyngrwyd cyflym, ffibr newydd. Mae hyn yn cynnwys rhannau o'r Borth, Bow Street, Capel Bangor a Phenrhyn-coch. Mae hyn yn fuddsoddiad hynod o bwysig – mae gymaint yn ddibynnol ar y we erbyn hyn, o brynu a gwerthu a bancio i lenwi ffurflenni trethi a thaliadau ffermydd. Mae'r oes ddigidol yn cynnig y potensial i alluogi mwy o weithio o gartref a hybu'r economi wledig, ond dim ond os yw'r isadeiledd yn ei le.

I gymryd mantais ar y system newydd mae'n rhaid i chi gysylltu gyda'ch darparwr gwasanaeth rhyngrwyd – fydd e ddim yn digwydd yn awtomatig. Mae croeso mawr i chi gysylltu gyda mi (elin.jones@cynulliad.cymru) gyda'ch profiadau. Rwy'n cwrdd gydag uwch swyddogion BT cyn hir, a bydd yn ddefnyddiol i mi fedru adrodd yn ôl iddynt ar sut y mae'r system yn gweithio. Byddaf hefyd yn codi gyda hwy eto y sefyllfa mewn llefydd sy'n bell o'r gyfnewidfa – fel Cwmerfyn a Chwmrheidol – lle mae mynediad i'r we wedi bod yn broblem barhaus. Mae rhai grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llefydd sydd allan o gyrraedd y system newydd, ond fy ngobaith i yw i gymaint o bobl a phosib fedru manteisio ar y band-llydan cyflymaf.

Er gwaetha potensial y we, mae buddsoddi mewn trafnidiaeth hefyd yn bwysig. Da yw gweld y rhwydwaith bysiau yn datblygu, gyda gwasanaeth gwell i Gaerfyrddin a Hwlffordd, ac mi ddaw gwelliant mawr yn y gwasanaeth drenau yn y gwanwyn, gyda gwasanaeth amlach o Aberystwyth a'r Borth. Yn fy marn i, mae hyn yn gyfle perffaith i fwrw ati gyda'r cynllun i ddatblygu gorsaf newydd yn Bow Street. Diwedd llynedd, bum yn pwyso ar Lywodraeth Cymru ar y mater yma. O'i gymharu gyda'r ffortiwn sydd am ei wario ar HS2 a'r darn newydd o'r M4 ger Casnewydd, mae hon yn brosiect y gellid ei wireddu'n gymharol syml, a gobeithio y gwelwn gynnydd go iawn ar hyn yn ystod 2015.

# Clinig Ymarfer rhag Cwympo

Dyna'r enw ar y gweithgaredd sy'n digwydd yn Neuadd y Borth bob bore Llun ers rhai blynyddoedd bellach. Daw'r mynychwyr o'r Borth, Llandre, Bow-Street, Tal-y-bont, Penrhyn-coch, a gall ein hoedran amrywio rhwng y pumdegau hwyr a'r naw degau cynnar. Y bwriad yw canolbwyntio ar sut i beidio cwympo, ac ar sut i godi petai'r anffawd hwnnw yn dod ar ein traws. I gyflawni hyn defnyddir nifer helaeth, helaeth, o ymarferion, bob un ohonyn nhw wedi ei anelu at ran benodol o'r corff neu symudiad cyfarwydd yn ein bywydau bob dydd, gyda'r bwriad o ddihuno cyhyrau sydd wedi hen fynd i gysgu, sicrhau ein bod yn gallu ymateb ar fyrder i'r annisgwyl sydyn, a gwella cydbwysedd, boed ar ddwy goes neu un, a'n llygaid ar gau neu ar agor. Does wybod beth i'w ddisgwyl ar foreau Llun ond does dim byd yn digwydd heb esboniad llawn o'r rheswm drosto!

David Langford BSc. yw'r meistr gwybodus, tyner ac amyneddgar, - ac aruthrol o heini – sy'n hwylio i mewn â gwên braf ar fore cyntaf ei wythnos waith! Mae e'n fythol ymwybodol o anghenion a gwendidau corfforol bob un ohonon ni, - does dim disgwyl i neb wneud unrhyw beth sy'n peri anghysur – tra'n ein denu'n ystyriol i wneud rhagor. Does ryfedd fod ganddo Dystysgrif Hyfforddwr gan Gymdeithas Gwyddonwyr Ymarfer Prydain.

*AgeCymru* Ceredigion sy'n trefnu'r sesiynau ac yn darparu paned cymdeithasol cyn dechrau. Os ydych chi'n teimlo y gallai hyn fod o help i chi cysylltwch ag *AgeCymru* Ceredigion, neu dewch draw i'n gweld tuag 11.00 ar fore Llun. Bydd angen nodyn gan eich meddyg cyn i chi ddechrau ymarfer.

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Cylch Meithrin y Borth yn 50 Oed

Mae Cylch Meithrin y Borth yn dathlu hanner can mlynedd ei sefydlu y mis yma. Dyma beth o'i hanes, atgofion a chyfarchion. Cath Reeves yw arweinydd presennol y Cylch. Fel rhan o'r dathliadau cynhelir Bore Agored fore Mercher 28 Ionawr - oriau agor y Cylch. Croeso cynnes i bawb.

Dyma ddetholiad o ddarn o'r Tincer Ionawr 1985 oedd yn edrych ar yr Ysgol Feithrin yn dathlu ei phen-blwydd yn ugain oed.

Ychydig a freuddwydiwyd yng Ngorffennaf 1964 wrth drafod mewn Cyfarfod Agored y posibilrwydd o agor Ysgol Feithrin Gymraeg yn Y Borth, nac ychwaith pan sefydlwyd hi ym mis Ionawr 1965, y gwelai, nid yn unig ei harddegau, a'i dod i oed, ond yn wir, ei phen blwydd yn ugain oed, ond ar waethaf peth tywydd garw ar y daith, dyna yw ei hanes.

Dechreuwyd hi o dan nawdd Pwyllgor Cyd-Enwadol yr Iaith Gymraeg, a'i chartref cyntaf oedd Festri Capel Siloh. Nid oedd grantiau i'w cael yr adeg honno tuag at gostau cynnal Ysgol Feithrin, a rhaid oedd dibynnu ar weithgaredd y rhieni i godi arian er mwyn cael cronfa wrth gefn i brynu offer ac i gynnal yr ysgol. Trefnodd y Pwyllgor lleol Ffair Nadolig a gwnaed elw o £75 ohoni. Aed at i chwilio am fyrddau a chadeiriau bach ac yn y blaen, wedyn, a chafwyd rhai'n o bentwr oedd yn barod i gael eu chwalu wedi gorffen eu gwaith mewn ysgolion eraill – diddorol yw sylwi mai rhain sydd yno o hyd!

Roedd tair athrawes yn y dyddiau cyntaf hynny yn rhoi eu gwasanaeth am wythnos ar y tro, sef y ddiweddar Miss Effie James, Rhos; Mrs M Davies, Parc Bach a Mrs Nansi Hayes, gyda un o'r mamau yn cynorthwyo yn eu tro. Bu eraill yn llafurio yn y maes hefyd, sef Mrs Ina Tudno Williams, Mrs Delfyl Lewis Evans, Mrs Eirina Morris, Mrs Mary Thomas a Mrs Thelma Morgan, ond yr athrawes ers pedair blynedd ar ddeg bellach yw Mrs Thelma Lloyd. Punt y tymor oedd tâl y plant y pryd hynny, ond mae wedi bod yn ofynnol i godi'r tâl yn raddol oddi ar hynny.

Bu i'r ysgol dri chartre' i gyd, ond am gyfnod byr o rhyw dymor a hanner yn unig, y methwyd cynnal yr ysgol o gwbwl, a hynny pan dynnwyd i lawr adeilad hen Ysgol Gynradd y pentre', lle roedd yr Ysgol Feithrin ar y pryd, er mwyn codi Canolfan Ieuenctid newydd ar y safle. Rhoddwyd lloches iddi yn Festri Capel Gerlan pryd hynny – 1971 – a dyna lle mae hyd heddiw ac wedi mwynhau cyd-weithrediad hapus rhwng yr Ysgol a'r Capel.

Un newid mawr a ddaeth i ran yr Ysgol yn y blynyddoedd cynnar, oedd dod o dan adain y Gwasanaethau Cymdeithasol – Ceredigion yn gyntaf ac yn nes ymlaen – Dyfed –, a chael ei chofrestru ganddynt, a thrwy hynny fod yn abl i gael grant tuag at yr adeilad a'r offer. Yna, ymuno â Mudiad Ysgolion Meithrin pan ffurfiwyd hwnnw yn 1972, a'i galw'n Grŵp neu Gylch Meithrin, a chael cynorthwywragedd sefydlog yn lle mamau ar rota – yn eu plith Mrs Nicholas, Mrs Margaret Griffiths ac ar hyn o bryd – Mrs Sandra Jones.

Chwech o blant bach ddaeth i'r Ysgol Feithrin ugain mlynedd yn ôl a rheini'n Gymry bach i gyd, ond stori wahanol yw hi erbyn hyn, gyda'r cyfartaledd o'r Cymry i'r Saeson yn isel iawn. Mae'r nifer wedi amrywio dipyn ar hyd yr amser hefyd, ac mae wedi bod mor uchel ag unarddeg, ond wyth sy'n mynychu ar hyn o bryd. Nid yn unig mae Cymry a Saeson wedi bod yn ddisgyblion yn y Grŵp yn Y Borth ond bu yna Wyddelod, Indiaid, Eidalwr a dau fach o Nigeria hefyd.

Mae'n ddiddorol nodi o'r chwech disgybl cynta' i gyd, bod tri wedi mynd i ffwrdd o'r Borth, a thri wedi aros yn lleol. Mae Gwlithyn, yn Weinyddes yn Ysbyty Bron-glais, Margaret yn gweithio fel ysgrifenyddes mewn Swyddfa Gyfreithwyr yn Aberystwyth, a Gareth yn drydanwr yn lleol mewn busnes gyda'i frawd. Yn y Fyddin mae Jeremy fel "Lance Corporal" gyda'r "Signals" ac wedi teithio tipyn o'r byd i leoedd fel Cyprus, Gogledd Iwerddon, Canada ac mae newydd ddychwelyd i'r wlad yma o'r Almaen. I Lundain aeth Liza i weithio, a hi yw'r Swyddog Trefnu Lluniaeth (Catering Officer) yn "Commonwealth Hall", Prifysgol Llundain. Cafodd Carys ei gradd ym Mhrifysgol Bangor mewn Ffrangeg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae nawr yn briod â Llydawr ac yn byw ym Mharis. Ar hyn o bryd mae'n dysgu Saesneg i bobl busnes yn y Brifddinas.

Mae Ysgol Feithrin Y Borth yn



Yr ysgol yn ddeg oed: Deidre a Fiona Kelly, Caroline Gethin, Christopher Bromley, Dyfed Lewis gyda phump aelod o'r dosbarth cyntaf.



Yr Ysgol Feithrin ym 1995



Mrs Nansi Hayes a Mrs Ella Jenkins gyda'r dosbarth cyntaf: Carys Lewis, Gareth Jenkins, Jeremy John, Margaret Davies, Gwlithyn Evans a Liza Raw-Rees. Bu'r Tincer yn holi lle mae y chwe disgybl erbyn hyn – mae Carys yn darlithio ym Mhrifysgol Caen, Normandy; Gareth yn drydanwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, Margaret yn gweithio yng Nghanolfan Ddosbarthu y Cyngor Llyfrau yn Llanbadarn, Gwlithyn mewn siop yn Aberystwyth, Jeremy yn gweithio i gwmni nwy yn Llan-non a Liza yn East London, Penrhyn Dwyreiniol, De Affrica.

ymfalchio ei bod ymysg yr arloeswyr ym myd addysg Feithrin yn y Sir. Tybed ai Ysgol Feithrin Y Borth yw'r cynta' i gynhyrchu'r ail genhedlaeth o blant o fewn yr uned? Mae'r rhod wedi troi ei chyflawn dro gan fod Hayley, merch fach Gareth Jenkins, un o'r disgyblion cyntaf, yn awr yn mynychu'r ysgol. A ydyw'r Grŵp hefyd wedi torri record wrth gael yr un athrawes am bedair blynedd ar ddeg? (o'r *Tincer* Ionawr 1995)

Yn ôl Pennaeth Ysgol Craig yr Wylfa, Hefin Jones " Mae Ysgol Craig yr Wylfa'n falch iawn o'r cysylltiad agos iawn sydd yna rhwng yr ysgol a'r Cylch Meithrin. Mae'r Cylch yn defnyddio adeilad ar dir yr ysgol ers rhyw 5 mlynedd (a mwy efallai) bellach ac mae'r Cylch wedi datblygu ardal chwarae bwrpasol ar gyfer y plant. Mae'r plant yn cael eu cynnwys yn llawer o weithgareddau'r ysgol gan gynnwys y Gyngerdd Nadolig bob blwyddyn. Mae plant y Cylch yn cael cinio yn yr ysgol bob dydd ac yn ymwelwyr cyson i'w paratoi nhw ar gyfer y trosglwyddo i'r ysgol yn y pen draw."

**Cyfarchion i Ysgol Feithrin y Borth.**
Fel un a fu ynghlwm wrth Ysgol Feithrin y Borth, o'i genedigaeth fel Grŵp Meithrin bach lleol, i'w thyfiant i fod yn aelod o'r Mudiad Ysgolion Meithrin Cenedlaethol, 'rwy'n ymhyfrydu yn y ffaith ei bod wedi goroesi, ac yn dal i ffynnu. Mae'n bleser o'r mwya' gen i gael y cyfle i ddanfon cyfarchion cynnes i'r rhai sydd yng ngofal ar hyn o bryd, ac i ddymuno'n dda iddynt hwy a'r Ysgol i'r dyfodol. Hir y parheir y gwaith pwysig gychwynwyd hanner cant o flynyddoedd yn ôl, a choffa da am y rheini fu'n rhoi o'u hamser a'u hegni ar hyd y blynyddoedd.
**Nansi Hayes, Caerfyrddin**



Gyda chylch meithrin y Borth yn dathlu'r hanner cant, golyga hyn fod gan blant presennol y cylch Fam-gu a Thad-cu neu, hyd yn oed, hen Fam-gu a hen Dat-cu fyddai wedi cael dysgu trwy chwarae yng nghylch meithrin y Borth. Waw! Dyna destament i bwysigrwydd y gwaith. I'r plentyn bach, mae'r profiad o gael mynd i'r cylch yn amhrisiadwy. Yn hyn o beth, mae pob cylch meithrin yn drysor - un sydd yn perthyn mewn rhyw fodd neu gilydd i gymaint o bobl lle mae cysylltiadau bore oes wedi eu creu drwy gyd-chwarae, lle mae plant bach yn magu dealltwriaeth o'r byd ac yn ennill hyder a galluoedd newydd. Llongyfarchiadau i gylch meithrin y Borth ar gyrraedd y hanner cant ac ar anrhegu'r Gymraeg i genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth. Diolch i bob un sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith dros y degawdau.
**Dr Gwenllian Lansdown Davies**
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin



Yr Ysgol Feithrin heddiw.

Llongyfarchiadau mawr i Gylch Meithrin Y Borth sydd yn dathlu 50 mlynedd. Mae llawer o ddatblygiadau wedi bod ym maes gofal plant dros y blynyddoedd ac y mae'r cylch wedi cwrdd â rhain i gyd. Maent nawr yn cwrdd mewn caban ar gampws yr ysgol ac yn darparu addysg a gofal i hyd at 12 o blant. Mae'r cylch yn cael ei arolygu gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gan Estyn gan ei fod yn cael ei ariannu i ddarparu addysg i blant 3 oed. Mae'r cylch yn cwrdd 5 bore o 9 - 12.30 sydd yn cynnwys sesiwn cinio.

Gwerthfawrogwn yn fawr y gefnogaeth mae'r cylch wedi ei dderbyn oddi wrth y gymuned drwy weithgareddau codi arian, bod ar y pwyllgor neu anfon eich plant i'r cylch, hebddo ni fyddai'n bosib nodi'r garreg filltir arbennig yma.

Diolchaf i bawb am eu holl gefnogaeth a brwdfrydedd dros y blynyddoedd.

Eirwen Hughes
Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin,
07800 540239
1 Ffordd y Gogledd, Aberaeron, Ceredigion SA46 0JE
www.meithrin.co.uk

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gylch Meithrin y Borth. Rwy'n falch clywed eu bod yn dal i fynd – mae gennyf atgofion melys o fy nghyfnod gyda hwy.
**Thelma Lloyd, Y Groeslon, Gwynedd**

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

y tincer

# Codi'n Storm

**Yn ddiweddar, roedd adroddiadau yn y wasg leol yn mynegi'r posibilrwydd y bydd hi'n storm enbyd eto eleni, gyda rhagolygon am dywydd gwaeth na'r llynedd hyd yn oed yn y cyffiniau hyn. Wrth reswm, mae adroddiadau fel hyn yn destun pryder arbennig ymhlith trigolion y Borth, yn enwedig wrth ddynesu at gyfnod o lanw uchel iawn ddechrau'r flwyddyn.**

**Ac eto, mae 'na elfen o gysur yn y ffaith fod y pentref wedi wynebu stormydd enbyd yn y gorffennol, ac mae'n syndod sut mae'r lle wedi goroesi ar hyd y blynyddoedd.**

**Yn achos un storm a ddigwyddodd 139 o flynyddoedd yn ôl, mae'r modd y daeth y pentref a'r trigolion drwyddi yn gysylltiedig â hanes nodedig arall.**

***Sut y dechreuodd pethau***

1876 oedd blwyddyn sefydlu perthynas y Borth ag Ysgol Uppingham (Swydd Rutland), un o ysgolion bonedd blaenllaw Lloegr.

Yn Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd teiffoid yn rhemp. O fewn cyfnod o naw mis o Fehefin 1875 ymlaen, torrodd y salwch allan deirgwaith yn Ysgol Uppingham. Cafodd dros bum deg chwech eu taro'n glaf, a bu farw nifer o blith y disgyblion ac aelodau'r staff. Ar ddau achlysur bu raid cau'r Ysgol ac anfon y bechgyn adref. Cafwyd dadleuon cyhoeddus ffyrnig ynghylch beth oedd achos yr haint : ai carthffosiaeth a draeniau yn y dref ynteu yn yr Ysgol oedd fwyaf cyfrifol am y salwch. Derbyniodd prifathro'r ysgol, y Parchedig Edward Thring, deligramau o bob cwr oddi wrth rieni gofidus, a chyhoeddwyd beirniadaeth lem yn y wasg genedlaethol.

Gwnaeth yr ysgol sawl ymgais i wella'r sefyllfa ond fe ddangosodd adroddiad beirniadol iawn y Swyddog Iechyd Meddygol, Dr Alfred Haviland, fod y cyfan yn ofer oherwydd, o safbwynt modern, roedd yr ymateb yn annigonol ac yn rhy ddiweddar. Roedd ymateb yr awdurdod lleol yn rhy araf o lawer hefyd. Nododd Haviland fod cyflwr dychrynllyd y carthffosydd, carthion yn llifo i mewn i ddŵr ffynnon, a diffyg gweithfeydd dŵr yn y dref oll wedi cyfrannu tuag at y sefyllfa.

Yn nhref Uppingham ac yn yr ysgol, roedd angen gwaith adeiladu sylweddol.

Y broblem fawr i'r Prifathro ac i'w staff oedd sut i gadw'r Ysgol i fynd o dan amgylchiadau mor wael. Roedden nhw wedi cau'r ysgol ddwywaith yn barod, a byddai ailgynnull yr ysgol a'r salwch yn torri allan eto yn debyg o ddod â'r cyfan i ben – o ganlyniad i rieni yn symud eu meibion i le mwy diogel.

Ar 7 Mawrth 1876 cynhaliwyd cyfarfod



arbennig i'r athrawon. Yn ogystal â bod yn academyddion ac yn addysgwyr, roedd Thring a'i gydweithwyr hefyd yn ddynion busnes, ac yn berchen ar naw deg y cant o adeiladau'r ysgol a'r isadeiledd. Pe bai'r cyfan yn fethiant, yna byddai ar ben ar bob un ohonyn nhw hefyd.

***Symud ymlaen***

Felly y cafodd y syniad o ail-leoli ei grybwyll yn y lle cyntaf – hynny yw, ailsefydlu'r ysgol gyfan mewn man arall dros dro.

Yr un a ddewiswyd i ymchwilio i'r mannau posibl ar arfordir Cymru oedd C. W. Cobb, athro a hefyd meistr llys yn yr ysgol. Ystyriwyd mai'r arfordir fyddai'r lle gorau oblegid yr awyr iach.


Lluniodd Cobb restr fer o dair ardal: Llandrindod (i mewn yn y wlad), y Borth, a'r Bermo. Ar 13 Mawrth, ymadawyd â Rutland, a theithiodd y Prifathro, dau aelod o'i staff, ac un o ymddiriedolwyr yr ysgol i Gymru er mwyn dod i benderfyniad terfynol.

Yn Llandrindod yr arhosodd y criw gyntaf. Yn anffodus, roedd y tywydd yn oer ac eira dan draed, a'r bryniau oddi amgylch yn foel a digroeso. Ar ôl treulio noson anghysurus yno, penderfynwyd yn erbyn y dref oherwydd nad oedd digon o le i letya tri chant o ddisgyblion, athrawon, a'u teuluoedd. Yn nes ymlaen yr un diwrnod, cyrhaeddwyd y Borth.

***Symud i'r Borth***

Bryd hynny, er mai pentref diarffordd â physgota'n brif ddiwydiant iddo oedd y Borth o hyd, roedd dyfodiad y rheilffordd yn 1863 eisoes wedi creu newidiadau mawr.

Codwyd y pentref ar dafod o draeth graeanog yn ddim ond dwy res o fythynnod hwnt ac yma hyd lan y môr, ond gallai ymfalchïo bryd hynny mewn gwesty mawr, crand (a gafodd ei ddymchwel yn ystod y 1970au), sef gwesty'r 'Cambrian'. (Wedi hynny, daeth yn adnabyddus i selogion Yr Urdd fel gwesty Pantyfedwen. Erbyn heddiw, mae Canolfan Croeso Cymru ar y safle). Ar ongl



sgwâr i'r gwesty roedd Teras y Cambrian; y tu cefn iddo, roedd llain o dir a wal o'i gwmpas.

Er ei faint a'i fri, roedd y 'Cambrian' wedi bod yn wag ers misoedd lawer ac yn brin o ymwelwyr, gan fod ei sefydlwyr wedi bod yn rhy optimistig ynghylch nifer yr ymwelwyr a fyddai'n cael eu cludo i'r ardal ar y rheilffordd newydd. Y funud yr aeth y Prifathro a'i gydweithwyr i mewn i'r adeilad, fe ddaethon nhw i'r penderfyniad mai dyma fyddai safle'r ysgol.

Ar 16 Mawrth, dim ond naw diwrnod ar ôl i'r syniad o ail-leoli gael ei grybwyll am y tro cyntaf, arwyddwyd contract gyda Mr C. Mytton, perchennog y 'Cambrian', i letya'r mwyafrif o'r bechgyn a'r staff a'u teuluoedd. At hyn, byddai'r gwesty'n darparu cyfleusterau'r gegin a'r golchdy ar gyfer yr ysgol gyfan. Cytunwyd ar dâl o £1 y pen yr wythnos, a chafwyd cytundebau pellach rhwng yr ysgol a'r pentrefwyr i letya gweddill y disgyblion yn eu cartrefi. Byddai'r contract yn para tan fis Gorffennaf, gyda'r dewis o adnewyddu'r contract pe bai angen.

Ar yr un diwrnod nodwyd y gallai llain o dir garw wneud y tro fel llain criced o bosib (ystyriaeth hollbwysig i ysgol fonedd o bwys yn Lloegr!!). Yn nes ymlaen, cafodd y llain hwn ei israddio i fod yn ddim mwy na llain ymarfer pan ddarparwyd tir ar gyfer chwaraeon gan y tirfeddiannwr lleol, Syr Pryse Pryse, Gogerddan, am rent isel.

***Paratoi ar gyfer bywyd yn y Borth***

Cyflogwyd crefftwyr lleol i drawsnewid y gwesty. Yn y coridor ar y llawr isaf dodwyd byrddau trestl hirion a fyddai'n caniatáu i'r ysgol gyfan fwyta prydau bwyd ar un eisteddiad; cafodd yr adeilad ar gyfer cadw coetsys ei droi'n gampfa; ar y llain o dir y tu cefn i'r gwesty, adeiladwyd ystafell ddosbarth; a chodwyd ystafelloedd at ddibenion astudio, ymarferion cerdd, ysbyty a chlafdy. Dim ond y gwelyau oedd i gael eu cludo o Uppingham oherwydd cafodd yr holl offer eraill eu prynu'n lleol.

Fis Mawrth 27ain, 1876, daeth trên nwyddau a oedd wedi'i logi gan y Prifathro i mewn i orsaf y Borth. Tynnai'r injan ddeunaw cerbyd yn cario'u llwyth o dri chan gwely a matresi, a rowler mawr i gadw'r cae criced yn gymen.

Y cynllun gwreiddiol oedd i weithwyr lleol ddadlwytho'r trên dan gyfarwyddyd yr Ysgolfeistri – a phob gwely a matres i gael eu cario at lety eu perchennog. Yn anffodus, nid oedd neb wedi ystyried yr anhawster a fyddai'n codi oherwydd bod y rhan fwyaf o'r dynion lleol, a oedd yn Gymry Cymraeg, yn ei chael hi'n

anodd deall yr iaith fain, yn enwedig y math Saesneg a siaradai eu cyflogwyr.

Yn ôl y Parchedig J.H. Skrine, athro a oedd hefyd yn feistr llys yn yr ysgol, ac awdur cyfrol o'r enw "*Uppingham by the Sea*", aeth y lle fel Tŵr Babel wrth i'r trên gyrraedd yr orsaf:

"Ynghanol holl anhrefn cyfarwyddiadau croes i'w gilydd yn cael eu bloeddio o bob cyfeiriad, cludent yn egnïol a'u hwynebau'n llawn cynnwrf a thân, y peth wmbredd o dunelli o fatresi yma a thraw, ynghyd â'r darnau di-rif o welyau."

Cymerodd y Prifathro ac aelodau'r staff at yr awenau gan arwain drwy osod esiampl, a gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith caib a rhaw. Byddai'r gwaith hwnnw'n para drwy gydol yr wythnosau nesaf. O adeiladu'r ystafell ddosbarth i wnïo'r llenni, clustnodi ystafelloedd a labelu droriau a chypyrddau personol, roedd pawb a phobun, yn wryw a benyw, yn derbyn eu priod waith lle bynnag yr oedd modd, i gyflawni pa dasgau bynnag oedd yn angenrheidiol.

Nid aeth anghenion y bechgyn yn angof hyd yn oed ym meysydd adloniant a chwaraeon. Roedd Esgob Tyddewi wedi rhoi cae o fewn cyrraedd cyfleus i'r gwesty at ddefnydd yr ysgol ac, ychydig bellter o orsaf y trên yn Bow Street, roedd y weirglodd a fyddai'n cael ei throi maes o law yn gae criced, rygbi ac athletau. Cytunwyd ar delerau rhesymol gyda'r cwmni rheilffordd er mwyn gwneud y daith bedair milltir i bentref Bow Street yn un rwydd a rhad.

***Y disgyblion yn cyrraedd***

Ddydd Mawrth, 4 Ebrill 1876, daeth torf o drigolion y pentref a phobl o Aberystwyth i orsaf y Borth i wylio'r bechgyn cyntaf yn cyrraedd.

Y noson honno, roedd oddeutu cant a hanner o ddisgyblion ar y trên. Ar y dechrau, roedd hi'n draed moch ond, ymhen hir a hwyr, cliriwyd y platfform. Cafodd y bechgyn eu hebrwng ymaith i fwyta eu pryd bwyd cyntaf yng nghoridorau gwesty'r 'Cambrian', a dychwelodd trigolion y pentref a phobl y dref i'w cartrefi. Yn nes ymlaen, bu'r gweision a'r athrawon wrthi'n didoli'r bagiau ac yn eu cario i briod lety pob un o'u perchnogion.

Y noson wedyn, gwelwyd yr un olygfa eto wrth i drên arall gario mwy o ddisgyblion i'r Borth ac yn hwyrach, wedi hanner nos, cyrhaeddodd trên arbennig yn cario gweddill y disgyblion. Roedd Ysgol Uppingham wedi cyrraedd o'r diwedd!

Allan o gyfanswm o dri chant o ddisgyblion ar y gofrestr, daeth 290 i'r Borth.

***Y pentref a'r ysgol yn cyd-fyw***

Y bwriad gwreiddiol oedd i'r ysgol aros yn y Borth am dymor ond, oherwydd arafwch yr awdurdodau a oedd wrthi'n cwblhau'r gwaith yn Uppingham, aeth pedwar mis ar ddeg heibio cyn y gallai'r ysgol ddychwelyd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed cryn ymdrech gan yr ymwelwyr i ddod yn rhan o'r gymuned leol.

Chwaraeodd y tîm criced cyntaf yn erbyn nifer o dimau lleol; canodd y côr yn Eglwys Sant Mathew (adeilad newydd bryd hynny); yn ogystal, trefnwyd dau gyngerdd yn Aberystwyth, a pherfformiwyd Oratorio'r Nadolig o waith J. S. Bach ar achlysur agoriad yr ysgoldy.

Yn eu cynefin newydd, roedd yr amgylchedd yn cynnig pob math o gyfleoedd i bawb brwd dros fywyd gwyllt, crwydro bryniau, pysgota a daeareg. Trefnwyd teithiau i ymweld â'r Wyddfa a Chader Idris ac roedd y Prifathro, un brwdfrydig iawn ynghylch manteision awyr iach, yn annog teithiau cerdded dros gryn bellter.

Fel y rhan fwyaf o ysgolion, byddai Ysgol Uppingham yn defnyddio cloch i alw'r disgyblion. Oherwydd nad oedd hyn yn ymarferol yn y Borth, codwyd tair baner mewn mannau strategol i gyflawni'r un swyddogaeth.

***Yr ail dymor***

Pan ddychwelodd yr ysgol am yr ail dymor ym mis Medi, 1876, mynegwyd peth gofid ynghylch gorfod treulio'r gaeaf yn y Borth. Roedd rhai o'r bechgyn yn lletya mewn cartrefi heb lawer o wres, tai heb fod ynddyn nhw fawr ddim i'w hamddiffyn rhag y gwynt. Serch hynny, nid oedd yn ymddangos fel pe bai hyn wedi effeithio rhyw lawer ar frwdfrydedd y disgyblion a'r staff ynghylch y pentref nac ynghylch llwyddiant y tymor.

Yma, cafodd y bechgyn flas ar ryddid newydd sbon ac, er gwaetha'r gwrthdaro rhwng dau ddiwylliant – wedi'r cyfan, plant dosbarth breiniol Lloegr oedd y rhain, a'r dosbarth canol a oedd newydd ymgyfoethogi yn Lloegr, yn byw mewn cymuned anghysbell â physgota'n brif ddiwydiant iddi ac yn Gymraeg ei hiaith – serch hynny, roedd y pentref a'r ysgol yn cyd-fyw ar delerau da â'i gilydd.

Ym mis Ionawr, dychwelodd Ysgol Uppingham i'r Borth unwaith eto. Dim ond un disgybl wnaeth ddim dod yn ei ôl.

***Codi'n Storm***

Ar 29 Ionawr 1877, ddeng niwrnod ar ôl dechrau'r tymor newydd, cododd storm enfawr.

Torrodd y tonnau drwy'r morglawdd ac, wrth ddod o'u gwasanaeth boreol, gwelodd y bechgyn fod dwˆr yn llifo i lawr y ffordd. Cyn hir, roedd y ffordd wedi troi'n afon a'r bobol leol yn gorfod ceisio cadw'r dwˆr allan drwy bentyrru pethau yn erbyn eu drysau i'w hamddiffyn. Arnofiai malurion ar hyd y stryd ac, wrth i lefel y dwˆr godi tra hyrddiai'r gwynt a'r tonnau, achoswyd mwy o ddifrod wrth i ddrysau a ffenestri chwalu.

Gostwng wnaeth lefel y dwˆr adeg y trai, ond para wnaeth y gofid y byddai mwy o ddifrod yn cael ei achosi gyda'r nos wrth i'r llanw ddod i mewn yn ei ôl eto.

Mewn cydweithrediad â'r trigolion lleol, trefnwyd bod pob llys yn yr ysgol yn gweithio fel criw dan oruchwyliaeth y meistr llys perthnasol. Fe aethon nhw i'r afael â phob dim, o atgyfnerthu'r morglawdd a chlirio sbwriel hyd at helpu'r trigolion i glirio'r difrod o'u cartrefi. Diolch yn rhannol i'r cymorth a gafwyd gan yr ysgol, chafodd neb anaf yn y Borth ac nid oedd unrhyw ddifrod difrifol wedi'i achosi i adeiladau 'chwaith.

***Ffarwelio â'r Borth, ond dal i gofio***

Ar 10 Ebrill 1877 daeth y newydd fod y gwaith yn Uppingham wedi'i gwblhau a'i bod hi'n ddiogel i'r ysgol ddychwelyd yno. Ar y diwrnod olaf, daeth bron pob un o drigolion y Borth allan i ddweud ffarwél. Traddodwyd areithiau'n canmol ymddygiad yr ysgol a mynegwyd geiriau o ddiolch am yr help llaw a roddwyd i'r pentref yn ystod y storm. Unwyd i ganu caneuon y tu allan i westy'r 'Cambrian', a chafwyd geiriau o ganmoliaeth gan y Prifathro i'r holl ddaioni a'r cyfeillgarwch a oedd wedi deillio o'r arhosiad.

Hyd y dydd heddiw, mae yna bethau yn y pentref sy'n dwyn i gof yr adeg pan ddaeth Uppingham i'r Borth. Yn eu plith, mae meysydd chwarae Uppingham, ffenestr ddwyreiniol Eglwys Sant Mathew, y seddau o lechi sydd wedi'u gosod hyd ymyl llwybr Uppingham (y llwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr yr Eglwys at yr afon), a'r llechfaen goffa ar Ganolfan Croeso Cymru (safle hen westy'r 'Cambrian' – gwesty'r Urdd, Pantyfedwen, wedi hynny).

Roedd Edward Thring yn cael ei ystyried yn brifathro a fyddai'n ysbrydoli pawb o'i gwmpas. Yn y gwasanaeth arbennig cyntaf a gafodd ei gynnal i nodi perthynas yr ysgol â'r Borth, dywedodd:

"Ar y diwrnod hwn cynnal gwasanaeth o ddiolchgarwch am achubiaeth fawr yr ydym, a gobeithiaf o flwyddyn i flwyddyn tra bydd yr ysgol hon mewn bodolaeth y cedwir mewn cof sut y cynhaliwyd ei heinioes, yn yr un modd ag y gwnawn ninnau heddiw..."

Mae Ysgol Uppingham wedi para'n driw i'w ddymuniad oherwydd, bob blwyddyn, mae gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal yng Nghapel yr Ysgol i nodi'r digwyddiad ac ail-fyw'r hanes.

**Eurgain Fowler**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Yma i'ch helpu chi
## Gwasanaeth prawfddarllen


Lwfans o hyd at 1000 o eiriau, am ddim i fusnesau ac elusennau bach a chanolig

0845 6033 221
hybu@comisiynyddygymraeg.org

# Taith gerdded y mis

## Ysbyty Cynfyn i Ystumtuen

Man dechrau: Ar bwys Eglwys Ysbyty Cynfyn.
Map: OS Explorer 213. GR 755792.
Pellter: Tua 4 milltir. Serth drwy'r coed, ond y gweddill yn weddol hawdd.




Ewch ar hyd y llwybr sy'n dilyn wal y fynwent ac ymlaen tuag at y goedwig. Byddwch yn ofalus yn dilyn y llwybr lawr at Bompren 'Ffeirad. Dros y bont ac i'r chwith ac i'r dde cyn cyrrraedd y sticl a dringo lan drwy'r coed a dros y sticl i'r cae. Ymlaen i'r dde o Dolgamlyn ac fe welwch lwybr yn mynd fyny eto yn weddol serth ac ac anelu at sticl. Ar ôl croesi'r sticl chwiliwch am y cylch cerrig. Fe welwch y llwybr yn mynd lan dros y top ac wedyn lawr nes cyrraedd sticl i fynd dros y ffens. Ymlaen heibio'r argae ac yn eich blaen, ond cyn cyrraedd y ffordd edrychwch ar bwll Pen-rhiw. Trowch i'r chwith a cherdded heibio Llwynteifi Uchaf ac ar ôl tua chwarter milltir mae'r ffordd yn eich arwain i'r dde heibio adfael o'r enw Y Deml. Lawr drwy'r cae, dros sticl ac ymlaen i un arall a mynd o amgylch y cae ac yn ôl i'r goedwig a'r bont ac yn ôl yr un ffordd i'r man dechrau. Ewch i'r fynwent i chwilio am fedd y 'quads' cyntaf a gofrestrwyd – mae i'r chwith yn agos i ddrws yr eglwys.

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Tachwedd, yn Neuadd Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Shân James, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Tegwyn Lewis, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price, Geoff Pyne, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill.

Nodwyd fod gwasanaeth Sul y Cofio wedi ei gynnal a diolchwyd i bawb a oedd wedi bod yn bresennol. Estynnwyd diolch hefyd i Trefor Davies am baratoi'r gerddoriaeth ar gyfer y gwasanaeth, ac i bawb a gynorthwyodd gyda pheintio'r reilings o gwmpas y gofeb.

Materion yn codi: y tir gyferbyn â Horeb a chyflwr y ffordd i Salem - ni chafwyd ymateb gan y Cyngor Sir hyd yma, felly gofynnwyd i'r Clerc ddal i bwyso am ateb. Y caban ffôn yn Salem - ni chafwyd gwybodaeth bellach, ond y tebyg ydoedd y gallai'r Cyngor brynu'r caban. Maes Seilo - roedd Dai Rees Morgan wedi cael gair gyda un o'r plismyn lleol, ac roedd ef yn mynd i gadw golwg ar y sefyllfa o ran parcio ar y stad.

Eglwys St Ioan: roedd Eglwys St Ioan yn bwriadu cynnal Gŵyl Coed Nadolig fel ag y gwnaed y llynedd. Cytunodd y Cyngor i gymryd rhan a chynigiodd Edwina Davies i drefnu'r goeden ar ran y Cyngor. Diolchwyd iddi am hyn.

Roedd Eirian Reynolds wedi adolygu Asesiad Risg y Cyngor, a phenderfynwyd ei fabwysiadu. Byddai copi yn cael ei anfon allan i bawb ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio i'w trafod, ac nid oedd yr un o'r aelodau wedi cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd yn ystod y mis a aethai heibio.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 19 Ionawr 2015.

## DOLAU

### Cydymdeimlad

A'r *Tincer* yn mynd i'r wasg clywyd am farwolaeth Nest Davies, Nant Gwyn, Dolau. Cydymdeimlwn â'r teulu.

**y tincer**

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Tincer

# Ysgol Penweddig

### Prosiect *Sky Sports* 2014/15

Mae'r prosiect 'Sky Sports Living for Sport' yn defnyddio sgiliau chwaraeon a sêr chwaraeon i wella bywydau pobl ifanc. Cynlluniwyd y rhaglen i ysbrydoli a chefnogi pob cyfranogwr mewn ardaloedd sy'n berthnasol iddynt ac i wella hyder, cyrhaeddiad yn yr ysgol ag i'w hannog i fyw bywyd iach.

Eleni, mae'r ysgol wedi cofrestru i redeg y prosiect SSLFS drwy ein 'Criw Chwaraeon' newydd ym mlwyddyn 7. Aelodau'r grŵp hwn oedd naill ai llysgenhadon ifanc Efydd yn eu hysgolion cynradd llynedd neu disgyblion sydd wedi ymuno ers dod i flwyddyn 7 yn Nhymor yr Hydref.



**(Cefn) Jenna Downing (*Sky Sports*), Madeleine Grice-Woods, Laura Jones-Williams, Tia Johnston-Jones (Blaen) Megan Rees-Greaves, Aled Phillips, Rhodri Llywelyn a Shannon Rae Haird. Yn absennol mae Ioan Morris, Caryl Evans, Megan Evans, Aled Hywel a Iestyn Thomas**

Ar ddechrau mis Rhagfyr, daeth Jenna Downing, athletwraig Sky Sports, i ymweld â'r grŵp. Mae Jenna yn Bencampwraig y Byd mewn sglefrio ar ôl ennill medal aur yn y gystadleuaeth yn 2008. Siaradodd am ei thaith i ennill Aur efo'r Criw yn ystod y bore. Bydd Jenna yn dychwelyd i'r ysgol eto ym mis Chwefror i gynnal gweithdy ar gyfer y 'criw chwaraeon' i ddatblygu eu sgiliau arwain a'u hyder. Bydd y sgiliau y maent yn eu datblygu yn gymorth iddynt annog disgyblion eraill yn yr ysgol i roi cynnig ar chwaraeon newydd neu i fynychu clwb newydd. Gobeithio bydd hefyd cyfle i rai disgyblion roi cynnig ar Sglefrio yn ystod yr ymweliad. Bydd rôl wythnosol y Criw Chwaraeon yn cynnwys hyrwyddo clybiau chwaraeon allgyrsiol, bod yn gysylltiad rhwng disgyblion iau a'r Adran Addysg Gorfforol a Swyddog 5x60, a bod yn fodelau rôl da. Byddant hefyd yn trefnu twrnamaint Dodgeball yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Gwasanaeth Gwobrwyo

Arweiniwyd Gwasanaeth Gwobrwyo Penweddig eleni gan Mme Carol Izri, Dirprwy Bennaeth, a'r siaradwr gwadd oedd Mr. Barry Rees, Pennaeth Gwasanaethau Dysgu Ceredigion. Cyflwynwyd gwobrau i Rhydian Davies (Gwobr Addysg Gorfforol), Elin Wallace (Gwobr Goffa A D Lewis am Addysg Grefyddol), Huw Roberts (Gwobr Goffa A D Lewis am Addysg Grefyddol a Gwobr Evelyn Lumley Jenkins am Gerddoriaeth), Aled Skym (Gwobr Goffa Angharad Williams), Dafydd Thomas (Gwobr GYTS) ac Alys Cowdy (Gwobr y Ceffyl Du). Cyflwynwyd gwobrau NFU gan Mr. Wyn Evans, Cadeirydd NFU Ceredigion, i Lloyd Davies a Dafydd Davies. Yn absennol o'r llun mae Leah Ruddock (Gwobr Goffa A D Lewis am Addysg Grefyddol) a Meinir Williams (Gwobr David Herbert Jenkins am Gymraeg).



### Gwasanaeth Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig blynyddol yr ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor, yng Nghapel Bethel. Braf oedd gweld y capel yn orlawn a chafwyd darlleniadau, carolau ac eitemau unigol a chan gorau'r ysgol. Cafwyd anerchiad gan Y Parchedig Casi Jones cyn dfdisgybl – nee Casi Tomos) a'r Fendith gan Y Parchedig Judith Morris. Gallwch weld holl luniau'r gwasanaeth ar ein gwefan.



GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

y tincer

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**
Noson Gwis Morlan (7.30, nos Fercher, 21 Ionawr): cwis blynyddol ble mae capeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan.
DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST (12.00-1.30 & 4.30-6.00, dydd Mawrth, 27 Ionawr): cyfle i fyfyrio a chynnau cannwyll dros ddioddefwyr hil- laddiadau.
Sylhet – y genhadaeth goll? (7.00, nos Fercher, 4 Chwefror): anerchiad Aled Gruffydd Jones ar etifeddiaeth y Genhadaeth Bresbyteraidd Gymreig yn Sylhet, Bangladesh.
Mynediad: £3.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

COFIWCH GYSYLLTU
ytincer@gmail.com

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Presenoldeb

Mae gan bob ysgol darged heriol ar gyfer cynnal lefel uchel o bresenoldeb y dyddiau hyn ac felly mae'n braf cael cydnabod fod saith o blant yr ysgol wedi cael cyfartaledd o 100% dros y tymor diwethaf. Llongyfarchiadau mawr i Glyn, Daisy, Lisa, Skye, Eliza, Oliver a Joshua.

### Gwasanaeth Ysgolion y Bartneriaeth

Ar ddiwrnod olaf y tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig rhwng disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Tal-y-bont yng Nghapel Nazareth, Tal-y-bont. Roedd hyn yn gyfle arbennig i ddod at ein gilydd i ddiolch i'r staff a'r plant am eu holl waith caled yn ystod y tymor ac i'w canmol am y cyngherddau Nadolig cyffrous a safonol a gynhaliwyd cyn diwedd y tymor. Roedd hi'n gyfle hefyd i gofio am bwysigrwydd yr adeg yma o'r flwyddyn a chofio neges y geni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i swyddogion y capel am adael i ni ddefnyddio'r adeilad ac yn arbennig i'r Parchg Wyn Morris am ei stori bwrpasol ac i Mrs Janet Jones am gyfeilio i ni.

### Digwyddiadau diwedd tymor

Un o uchafbwyntiau mawr y tymor eleni eto oedd ymweliad Siôn Corn â'r ysgol. Roedd pawb yn gyffrous iawn fel arfer ac yn falch o gael anrheg. Fe ddaeth i'r ysgol ar ôl i ni flasu cinio arbennig Wendy ac roedd yn gyfle i ddweud diolch wrthi hi am y bwyd blasus mae'n paratoi ar hyd y flwyddyn.

Mae plant yr ysgol yn ffodus iawn o gael mynd i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yn flynyddol. Eleni y ffilm oedd *The Lego Movie* ac fe gafodd pawb amser da wrth chwerthin ar gampau'r cymeriadau doniol. Eleni, fe aethom gydag Ysgol Llangynfelyn ac roedd hi'n braf cael y cyfle o rannu bws i'r dref gyda'n gilydd.

Un o'r tasgau cyffrous wnaeth y plant fwynhau yn ystod yr wythnos olaf oedd paratoi 'chocolate log'. Diolch yn fawr iawn i Wendy am ein helpu gyda'r weithgaredd blasus yma.

Ar ddiwrnod olaf y tymor gwahoddwyd y rhieni i'r ysgol i ymuno gyda ni i gael paned a mins pei ac i ddymuno Nadolig llawen i bawb.

Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol am bob cymorth.

### PC Alun Jones

Ymwelydd arall cyn diwedd y tymor oedd y plismon Pc Alun Jones. Daeth ef i'r ysgol i siarad gyda'r plant am bwysigrwydd pobl sy'n ein helpu gyda'r plant lleiaf a bod yn ddiogel ar y we gyda'r plant hŷn. Dyma lun ohono gyda Dewi'r Ddraig yn Nosbarth y Cyfnod Sylfaen.

### Bam Nuttall

Ar ddiwedd y tymor, daeth gweithwyr o gwmni adeiladu Bam Nuttall i'r ysgol i drafod y cynlluniau diweddaraf ar amddiffynfeydd y traeth yn y Borth. Roedd yn sgwrs ddifyr iawn gyda'r plant yn ymateb yn frwdfrydig gan ofyn nifer o gwestiynau diddorol. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle arbennig o wisgo fel adeiladwyr hefyd.












# Ysgol Penrhyn-coch

### Parti Nadolig

Cynhaliwyd ein parti Nadolig yn ystod wythnos olaf y tymor. Cafwyd gwledd o fwyd a danteithion amrywiol. Trefnwyd y parti gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y bwyd neu fu wrthi'n gweini. Cafwyd llawer o hwyl yn mwynhau. Cafwyd ymweliad arbennig gan Sion Corn a alwodd heibio i'r ysgol er yr holl brysurdeb. Cafwyd anrhegion ganddo i bob un o'r disgyblion a chanwyd cân iddo wrth iddo fynd ymlaen ar ei daith hir. Diolch i'r garej am eu rhoddion.

### Morrisons

Bu'r disgyblion yn canu yn Morrisons cyn y Nadolig. Bu'r criw gweithgar wrthi yn canu ac yn casglu arian. Codwyd swm da iawn o arian. Diolch i aelodau'r côr a'u rhieni am fod mor barod i ddod i'r gweithgareddau.

### Cinio Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mercher olaf y tymor. Paratowyd y cinio gan Mrs Watkins a Miss Evans. Cafwyd gwledd o fwyd a diolch i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled yn paratoi.

### Sinema

Yn dilyn yr holl ymdrech ar gyfer y Sioe, cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio gydag ymweliad i'r Sinema i wylio'r ffilm Lego Movie.

### Christingl

Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl ar brynhawn olaf y tymor yn yr Eglwys. Bu'r disgyblion wrthi yn gwneud un cristingl y teulu a chafwyd cyfle i gynnau y rhain yn ystod y gwasanaeth. Gwelwyd y staff yn cymryd rhannau blaenllaw y seremoni. Diolch i'r Ficer am ei anerchiad ac i Ceris Gruffudd am gyfeilio i'r canu cynulleidfaol.

### Cyngerdd Nadolig

Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu gwaith caled yn y Sioeau Nadolig. Cynhaliwyd ein sioeau yn yr Ysgol. Cafwyd perfformiadau i'r Gymuned ar y prynhawn dydd Mercher a chafwyd criw da yn dod i wylio. Croesawyd y Cylch Meithrin atom a buont yn canu nifer o ganeuon ar gychwyn y sioeau. Diolch i bawb a ddaeth. Cafwyd dau berfformiad wedi'r nos. Y sioeau eleni oedd "Santa ar Streic" gan y Cyfnod Sylfaen a "Pantolig" gan ddisgyblion hŷn yr ysgol. Daeth criw da iawn i wylio'r disgyblion wrthi yn perfformio. Diolch i bawb a fu ynghlwm yn y sioeau. Diolch i'r rhieni am eich gwaith yn paratoi y gwisgoedd ac yn cefnogi gyda dysgu'r geiriau. Trefnwyd lluniaeth gan y PTA.

### Eisteddfod Llangollen

Derbyniwyd gwybodaeth ychydig cyn gwyliau'r Nadolig fod Côr Ysgolion Penrhyn-Coch a Phen-llwyn wedi ei dderbyn i gystadlu yn Eisteddfod Llangollen. Yn dilyn apwyntiad Mr Roberts yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Pen-llwyn, bydd côr unedig o ddisgyblion o'r ddwy ysgol i'w gweld yn cystadlu ar y llwyfan Rhyngwladol. Bydd hyn yn gyfle cyffrous i'r disgyblion a byddwn yn awr yn mynd ati i baratoi ac i godi arian ar gyfer y daith. Os oes diddordeb i drefnu bws o gefnogwyr fel yn 2013, cysylltwch ag un o'r Ysgolion i ddatgan diddordeb. Bydd y Côr yn cystadlu ar ddydd Mawrth y 7fed o Orffennaf.

### Plygain

Braf oedd gweld aelodau o gôr yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Plygain gynhelir dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan. Daeth criw da i gefnogi. Diolch am eich cefnogaeth.

### Croeso yn ôl

Croeso yn ôl i Mrs Evans i ddosbarth blwyddyn 1 a 2 ar ôl ei chyfnod ar famolaeth. Diolch i Mrs Morgan am ei gwaith caled yn ystod y cyfnod hyn a dymunwn yn dda iddi yn Ysgol Aberaeron.









# Ysgol Pen-llwyn

### Cinio Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mawrth olaf y tymor. Paratowyd y cinio gan Cathy a Dawn yn y gegin. Cafwyd gwledd o fwyd ganddynt. Bu pawb wrthi yn gwledda ac yn mwynhau a diolch i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled yn paratoi. Cafwyd amser yna i losgi y caloriau wrth redeg a chwarae dros yr amser chwarae.

### Sinema

Yn ôl ein harfer, cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio gydag ymweliad i'r Sinema i wylio'r ffilm Lego Movie. Braf oedd cael y cyfle i fwynhau y ffilm ac er i ambell un i weld y ffilm unwaith yn rhagor cafwyd llawer o fwynhad.

### Cyngerdd Nadolig

Eleni, cafwyd Gwasanaeth Nadolig yn y Capel. Bu'r disgyblion wrthi yn ymarfer eu llefaru, canu, offerynnau a'u sgriptiau am wythnosau. Daeth tyrfa dda iawn o rieni, teuluoedd a ffrindiau i fwynhau y perfformiadau. Gwelwyd offerynnwyr yr ysgol yn chwarae darnau unigol ac fel aelodau o grŵp, y disgyblion yn perfformio darnau o stori'r geni, côr o glychau dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn tincian carolau ynghyd â chôr o'r ysgol gyfan yn canu carolau hen a newydd. Diolch i'r holl blant am eu hymroddiad wrth baratoi ac i Aelodau a Swyddogion y Capel am y croeso a gafwyd. Rhaid cofio am Mrs Herschel a'r gwisgoedd arbennig. Diolch iddi am ei pharodrwydd i roi benthyg y gwisgoedd i ni. Diolch i bawb a ddaeth i wylio'r disgyblion. Rwy'n siwr eich bod wedi gadael yn teimlo naws y Nadolig.

### Eisteddfod Llangollen

Derbyniwyd gwybodaeth ychydig cyn gwyliau'r Nadolig fod Côr Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn wedi ei dderbyn i gystadlu yn Eisteddfod Llangollen. Yn dilyn apwyntiad Mr Roberts yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Pen-llwyn, bydd côr unedig o ddisgyblion o'r ddwy ysgol i'w gweld yn cystadlu ar y llwyfan Rhyngwladol. Bydd hyn yn gyfle cyffrous i'r disgyblion a byddwn yn awr yn mynd ati i baratoi ac i godi arian ar gyfer y daith. Os oes diddordeb i drefnu bws o gefnogwyr fel yn 2013, cysylltwch ag un o'r Ysgolion i ddatgan diddordeb. Bydd y Côr yn cystadlu ar ddydd Mawrth y 7fed o Orffennaf.

### Ffair Nadolig

Yn ystod Mis Rhagfyr, cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol dan drefniant y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Eleni, cafwyd noson arbennig a braf oedd nodi na chollwyd ein cyflenwad trydan fel yn 2013! Croeswyd nifer o gwmnïau atom a'u stondinau a diolch iddynt am eu cefnogaeth di flino. Trefnwyd nifer o stondinau gan y Gymdeithas Rieni ynghyd â rolau cig, raffl a stondinau amrywiol eraill. Daeth criw arbennig o rieni a ffrindiau atom yn ystod y noson i brynu, cymdeithasu a chefnogi. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni a'u parodrwydd i gefnogi yr ysgol a llwyddwyd i godi dros £1300 i'r Gymdeithas Rieni. Diolch iddynt am eu gwaith paratoi arbennig ac am eu hymroddiad di-flino i'r ysgol.

### Siwmperi Nadolig

Fel rhan o gynllun i godi arian gan elusen Achub y Plant gwelwyd staff a disgyblion yr ysgol yn gwisgo siwmperi Nadolig ar Ddydd Gwener, Rhagfyr 12fed. Gwelwyd amrywiaeth arbennig o siwmperi o rai doniol yn cynnwys Siôn Corn a Rwdolff



Plant Cyfnod Sylfaen yn ymarfer Stori'r Geni



Stondinau yn y Ffair Nadolig

i rai traddodiadol yn cynnwys eira a sêr. Diolch i bawb am yr ymdrech a chafwyd llawer o hwyl wrth godi arian tuag at yr elusen.

### Newid staff

Ar ddiwedd y tymor, cafwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio ag aelod o staff. Bu Mr Lewis yn Bennaeth Cynorthwyol yn yr ysgol ers 2011 ac yn ddiweddar fe'i apwyntiwyd yn Ddirprwy Bennaeth ar Ysgol Plas-crug. Ar ddiwedd ei gyfnod yn yr ysgol, cafwyd casgliad iddo a chyflwynwyd plat arbennig iddo i gofio am ei amser yma. Rydym yn diolch iddo am ei holl ymroddiad dros y cyfnod byr y bu yma ac yn dymuno yn dda iddo i'r dyfodol. Byddwn yn croesawu ei olynydd, sef Mr Gregory Roberts atom yn fuan yn y tymor newydd.



Ffarwelio â Mr Berian Lewis



Ffair Nadolig yn yr ysgol

# Ysgol Rhydypennau


Cyngerdd Nadolig Yr Uned Feithrin

### Colled a Chofio

Ar glywed y newyddion trist am farwolaeth Mr Eddie Jones; cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ddydd Llun olaf y tymor i dalu teyrnged ac i ddathlu bywyd ein cyn brifathro. Estynnwn ein cydymdeimladau dwys i'r teulu.

### Cinio Nadolig

Ar yr 6ed o Ragfyr cynhaliwyd cinio Nadolig yr henoed yn yr ysgol. Bu Mrs Meinir Fleming a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 80 o bobl eiddgar iawn. Cytunodd pawb mai dyma'r cinio gorau eto! Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol.

Ar y 17eg o Ragfyr, cynhaliwyd cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Yn ystod y wledd, cyflwynwyd anrhegion o ddiolch i holl staff y gegin am eu gwasanaeth ac, wrth gwrs, am y bwyd blasus yn ystod y flwyddyn.

### Sioe Nadolig

Cynhaliwyd ein Sioe Nadolig eleni yn Neuadd Rhydypennau ar y 10fed a'r 11eg o Ragfyr. I agor y noson, perfformiodd blwyddyn 1 a 2 'Nadolig Gwlad Rwla'. Yn dilyn hyn, perfformiodd blynyddoedd 3,4,5 a 6 'Hen Ddyn Doeth y Lleuad'. Cafwyd gwledd o actio a chanu yn ystod y ddau berfformiad o flaen cynulleidfa werthfawrogol iawn. Hoffai'r ysgol ddiolch i bwyllgor y neuadd am y cydweithrediad a'r cymorth yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiadau.

Cafwyd cyngerdd ardderchog hefyd gan Yr Uned Feithrin. Cynhaliwyd y gyngerdd hon yn neuadd yr ysgol ar y 9fed a'r 10fed o Ragfyr. Roedd y neuadd yn llawn ar gyfer y ddau achlysur.

Cyngerdd Nadolig yr Uned Feithrin-£360.
Sioe Nadolig yr ysgol-£1120.
Diolch i bawb am eu hymroddiad yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiadau.


Mwynhau'r Cinio Nadolig

### Band

Ar yr 19eg o Ragfyr fe aeth Mr Allan Philips, athro peripatetig pres y sir, â band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

### Partïon

Bu'r plant yn ffodus iawn yn ddiweddar gan eu bod wedi cael y cyfle i fwynhau dau barti Nadolig yn ystod yr un wythnos! Ar y 16eg o Ragfyr, trefnwyd parti gan bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol rhwng 6:30 a 8 y.h. Roedd y parti yn agored i bawb yn yr ysgol a chynhaliwyd y dathliadau yn neuadd yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson, i Mrs Meinir Fleming am y lluniaeth blasus, i Mr Rhodri Morgan am ei ddisgo hynod o dda, i noddwyr y noson sef Clwb Pêl-Droed Bow Street a Chymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau. Ac yn olaf diolch i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin i ddosbarthu anrhegion cynnar i'r plant ffodus ar y noson.

Ar y 18fed, trefnwyd parti Nadolig i'r holl blant yn ystod oriau'r ysgol. Yn ystod y miri, cafodd y plant gyfle i fwynhau gwledd o fwyd blasus a gorffennwyd y dathliadau gyda gêmau traddodiadol yr ŵyl.

### Clwb Cant

Canlyniad Rhagfyr:
1af-£50-Simon Herron, Bryncastell
2il-£30-Thomas Grover, Carregwen
3ydd-£20-Sian Owen, Bae Colwyn

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*


'Hen ddyn doeth y lleuad'.



Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio 'Nadolig Gwlad Rwla'

# Tasg y Tincer

## YSBYTY HOSPITAL



Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau Nadolig, a bod Siôn Corn wedi bod yn hael iawn. Diolch i'r tair fach wnaeth gystadlu y mis diwetha: Ffion o Ddolgellau, Elin o Bow Street a Lily-May o Aberystwyth. Dy lun di o'r menorah ddaeth o'r het y tro hwn, Elin, felly llongyfarchiadau mawr!

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Th | E | M | N | A | T | U | D | U | R | W | G |
| O | R | O | H | L | A | N | J | O | G | W | B |
| W | C | Dd | T | Th | T | L | S | E | W | O | W |
| A | L | I | I | Ll | O | N | A | I | E | I | R |
| I | E | O | D | S | O | F | L | U | L | D | Dd |
| N | F | N | U | L | R | E | Y | G | Y | A | Y |
| F | Y | S | J | O | S | D | Ch | N | Y | R | S |
| A | D | O | T | I | Ch | W | Th | F | D | L | B |
| T | Ch | C | N | S | L | G | I | I | F | E | Y |
| S | O | E | D | A | I | L | N | Rh | A | N | T |
| D | L | G | S | L | O | N | N | E | T | W | Y |
| G | N | E | A | M | Y | R | A | E | C | I | P |

~~ysbyty~~
Glenise
Tudur
radio
DJ Sal
pice ar y maen gwely
Lois
moddion
doctor
Owain
nyrs
Anni
clefyd
salwch
Judith

**Ysbyty Hospital**
**6.05**
**Iau**
**s4c.co.uk/stwnsh**

S4C STWNSH

Er mwyn dathlu bod Ysbyty Hospital yn ôl ar Stwnsh S4C, beth am roi cynnig ar y chwilair y mis hwn? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP erbyn Chwefror 1af. Cofiwch wylio'r rhaglen, a phob hwyl ar y chwilio!



Elin

Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 375 | IONAWR 2015